Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 03/2026

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2026

# Ymyriadau effeithiol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru: adolygiad o'r dystiolaeth

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-123-4

Ymyriadau effeithiol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru: adolygiad o’r dystiolaeth

Awdur:  Charlotte Guinee

Adroddiad Ymchwil Llawn:Guinee, C. (2026). Ymyriadau effeithiol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru: adolygiad o’r dystiolaeth. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad o Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 03/2026.]

Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/ymyriadau-effeithiol-i-gynyddu-cyfranogiad-mewn-addysg-drydyddol-adolygiad-or-dystiolaeth

Safbwyntiau’r ymchwilydd sy’n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Charlotte Guinee

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

## Cynnwys


Geirfa ..... 3

Cefndir ..... 4

Ehangu mynediad a chyfranogiad ..... 5

Methodoleg ..... 9

Ymyriadau i gynyddu cyfranogiad ..... 10

Rhaglenni allgymorth ac ymwybyddiaeth gynnar ..... 11

Tystiolaeth y DU ..... 12

Tystiolaeth ryngwladol ..... 15

Derbyniadau cyd-destunol / derbyniadau cyfannol / model cyfle cyfartal ..... 19

Tystiolaeth y DU ..... 20

Tystiolaeth ryngwladol ..... 22

Cymorth ariannol (trwy ysgoloriaethau neu fenthyciadau) ..... 26

Tystiolaeth y DU ..... 26

Tystiolaeth ryngwladol ..... 29

Mentora a chymorth gan gymheiriaid ..... 31

Tystiolaeth y DU ..... 32

Tystiolaeth ryngwladol ..... 34

Cymorth iechyd meddwl a llesiant ..... 37

Tystiolaeth y DU ..... 38

Tystiolaeth ryngwladol ..... 42

Parodrwydd academaidd ..... 44

Tystiolaeth y DU ..... 45

Tystiolaeth ryngwladol ..... 48

Dysgu digidol, cynhwysiant, ac arloesiadau addysgegol ..... 51

Tystiolaeth y DU ..... 52

Tystiolaeth ryngwladol ..... 53

Crynodeb o'r canfyddiadau....57
Crynodeb o'r ystyriaethau....60
Llyfryddiaeth....62

## Geirfa

ASAP

Rhaglen Gyswllt Astudio Carlam (Prifysgol Dinas Efrog Newydd)

BBBS

Big Brothers Big Sisters (rhaglen fentora)

CBT

Therapi gwybyddol ymddygiadol

HESA

Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

MHULS

Gwasanaeth Cyswllt Iechyd Meddwl y Prifysgolion

NCOP

Y Rhaglen Allgymorth Cydweithredol Genedlaethol (Uni Connect bellach)

POLAR

Cyfranogiad ardaloedd lleol (mesur o gyfranogiad addysg uwch)

PSAT

Prawf Gallu Ysgolaidd Rhagarweiniol

WISERD

Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru

## Cefndir

Yn yr adroddiad hwn, addysg drydyddol fel y'i diffinnir yn ôl Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru, 2022), sy'n cynnwys addysg uwch, addysg bellach, a hyfforddiant sy'n addas i ofynion unigolion 16 oed neu'n hŷn.

Mae dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn gymdeithasol-economaidd yn llai tebygol o symud ymlaen i addysg drydyddol. Er enghraifft, mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn sylweddol llai tebygol o fynychu addysg uwch o'u cymharu â'u cymheiriaid (Huxley a Davies, 2024).

Drwy ddadansoddiad o ddata lefel unigol cysylltiedig o Gymru (WISERD, 2015), dangoswyd bod pobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwy breintiedig yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn addysg uwch na'u cymheiriaid llai breintiedig, a chanfuwyd bod hyn yn bennaf, er nad yn gyfan gwbl, oherwydd gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad addysgol blaenorol. Trafodir hyn ymhellach yn yr adolygiad hwn. Hefyd, canfuwyd bod y gwahaniaethau yng nghyfraddau cyfranogiad cyffredinol mewn addysg uwch rhwng ysgolion a rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru yn sylweddol, ac yn fwy na'r effeithiau sy'n gysylltiedig â nodweddion unigol (cyrhaeddiad, ethnigrwydd). Ar ôl cael mynediad i addysg uwch, mae dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais gymdeithasol yr un mor debygol o ennill 'gradd dda' â'r rhai o gefndiroedd mwy breintiedig. Mae dadansoddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod bwlch o ran cyrhaeddiad ar lefel israddedig yn ymwneud ag amddifadedd addysg[1] (6%), ond amrywiad o ychydig ganrannau yn unig ar draws y ffyrdd eraill o fesur amddifadedd, megis incwm a chyflogaeth. Ar lefel ôl-raddedig, mae'r gwahaniaethau yn llai amlwg, ac mae amrywiadau llai yn cael eu gweld ar draws gwahanol fesurau o amddifadedd (Huxley a Davies, 2024).

Mae cynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru yn gofyn am ddulliau pwrpasol ar gyfer gwahanol sectorau o fewn addysg drydyddol i ddiwallu anghenion y boblogaeth dysgwyr amrywiol. Mae ymyriadau sy'n anelu at gynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol yn y DU ac yn rhyngwladol wedi'u hanelu at gynyddu'r canlynol:

1. Cofrestru (dechrau ar gwrs addysg drydyddol);
2. Cadw (parhau mewn addysg drydyddol);
3. Cyrhaeddiad (cyfradd cwblhau a chyflawni cymhwyster).

[1] Mae'r adroddiad yn diffinio amddifadedd gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Ehangu mynediad a chyfranogiad

Mae'r theori a'r athroniaeth y tu ôl i ehangu mynediad ym myd addysg wedi'u hymgorffori mewn egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, tegwch, cynhwysiant, ac angen economaidd.

Comisiynwyd y Pwyllgor Ymchwiliad Cenedlaethol i Addysg Uwch (a elwir hefyd yn Adroddiad Dearing) (Dearing, 1997) gan Lywodraeth y DU, sef yr adolygiad mwyaf o addysg uwch yn y DU ers y 1960au. Gwnaeth yr adroddiad gyfres o argymhellion a oedd yn cynnwys ehangu addysg uwch i gynyddu cyfranogiad ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, megis menywod, lleiafrifoedd ethnig, a dysgwyr ag anableddau. Diben yr adroddiad oedd creu system addysg uwch fwy cynhwysol, effeithiol a derbyngar i ddiwallu anghenion y DU dros yr 20 mlynedd nesaf. Pwysleisiodd yr adroddiad yr angen i gynnal a gwella ansawdd a safonau addysg uwch drwy adolygiadau mynych, gwelliannau o ran addysgu, a thrwy integreiddio technoleg gwybodaeth er mwyn gwella mynediad a deilliannau dysgu. Roedd yr adroddiad yn dadlau dros weledigaeth o ddysgu gydol oes, gan annog addysg barhaus a datblygu sgiliau ar hyd bywyd unigolyn. Pwysleisiodd rôl addysg uwch wrth gefnogi twf economaidd a datblygiad cymdeithasol, drwy argymell cryfhau cysylltiadau rhwng sefydliadau addysgol a'r farchnad lafur. Gellir gweld addysg fel buddsoddiad mewn cyfalaf dynol, a all arwain at dwf a datblygiad economaidd. Drwy ehangu mynediad, gall cymdeithasau wneud y mwyaf o'u potensial drwy ddatblygu sgiliau a thalentau eu holl aelodau (Burke, 2006).

Mae damcaniaethau cyfiawnder cymdeithasol, megis damcaniaethau John Rawls (Beattie, 1982), yn dadlau dros ddosbarthiad teg o adnoddau a chyfleoedd ar gyfer ehangu mynediad at addysg; pan fydd strwythurau cymdeithasol wedi'u trefnu i fod o fudd i'r aelodau lleiaf breintiedig ac mae adnoddau'n cael eu dyrannu mewn ffordd sy'n gwella deilliannau addysgol y dysgwyr lleiaf breintiedig, e.e. cyllid wedi'i dargedu, ysgoloriaethau, a rhaglenni cymorth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae egwyddor ehangu mynediad at addysg wedi'i hymgorffori mewn egwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiant sydd â'r nod o sicrhau bod gan bob unigolyn, waeth beth fo'i gefndir, fynediad at gyfleoedd addysgol. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â rhwystrau systemig a chreu amgylcheddau cefnogol ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (Case, 2024).

Mae cyflawni safonau uchel a dyheadau i bawb mewn addysg yn un o brif nodau Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2024). Y nod yw sicrhau bod pob dysgwr, beth bynnag fo'i gefndir, yn cael ei gefnogi i fod yn ddinesydd iach, sy'n ymgysylltu, yn fentrus ac yn foesegol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

Mae ehangu mynediad a chyfranogiad mewn addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru wedi bod yn ffocws i Lywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a nawr Medr, sef Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru. Mae Medr wedi cynhyrchu cynllun strategol drafft ar gyfer 2025–2030 mewn ymateb i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol (Llywodraeth Cymru, 2024) ac un o'r prif bethau y bydd yn canolbwyntio arnynt fydd ehangu mynediad. Mae ehangu mynediad hefyd yn un o amcanion diwygiadau Diamond a chynllun gwerthuso diwygiadau Diamond (Llywodraeth Cymru, 2024) sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bu sawl adolygiad ar raddfa fawr o'r dystiolaeth ar fentrau ehangu mynediad yn y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sy'n darparu sylfaen dystiolaeth eang:

- Yn 2015, cynhaliwyd ymchwil gan Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD, 2015) a wnaeth daflu goleuni ar effeithiolrwydd amrywiol fentrau ehangu mynediad. Pwysleisiodd yr adroddiad bwysigrwydd cymorth pwrpasol ac ymyriadau cynnar wrth wella mynediad ar gyfer grwpiau difreintiedig. Mae pobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwy breintiedig yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn addysg uwch na'u cyfoedion llai breintiedig oherwydd gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad addysgol blaenorol. Mae cefndir ethnig yn effeithio'n sylweddol ar fynediad i addysg uwch, ac mae patrymau tebyg i'w gweld yng Nghymru a Lloegr. Er enghraifft, mae gan fyfyrwyr gwyn gyfraddau uwch o ran mynediad i addysg uwch yn aml o'u cymharu â rhai grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae gan fyfyrwyr Asiaidd, yn enwedig y rhai o dras Indiaidd a Tsieineaidd, duedd i gael cyfraddau uwch o ran mynediad i addysg uwch. Gall myfyrwyr Du a myfyrwyr o gefndiroedd Pacistanaidd a Bangladeshaidd wynebu mwy o rwystrau, gan arwain at gyfraddau is o ran mynediad i addysg uwch o'u cymharu â'u cymheiriaid Gwyn ac Asiaidd. Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol o ran cyfranogiad mewn addysg uwch, y tu hwnt i nodweddion unigol. Mae mentrau ehangu mynediad yn amrywiol ac yn targedu gwahanol grwpiau cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar fynediad i addysg uwch a dilyniant drwyddi.

- Ym mis Hydref 2024, cynhaliwyd adolygiad o'r dystiolaeth (Nesom, ac eraill, 2024) yn ymwneud ag ehangu cyfranogiad mewn addysg drydyddol yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, a Gweriniaeth Iwerddon. Nododd yr adroddiad sawl ymyriad sydd wedi dangos effeithiau cadarnhaol o ran ehangu cyfranogiad. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth ariannol, mentora, cyngor a chyfarwyddyd pwrpasol, ac ysgolion

haf. Rhaglenni a oedd yn cyfuno sawl ymyriad o ran cymorth oedd yn tueddu i fod fwyaf effeithiol. Mae darparu cymorth ariannol yn ymyriad costus, ond i raddau helaeth mae'n arwain at effaith gadarnhaol fach ar gofrestru. Mae gwasanaethau mentora a chwnsela yn gwella dyheadau a dealltwriaeth dysgwyr o addysg uwch fel sy'n wir am ysgolion haf, ond nid oes digon o dystiolaeth yn ymwneud â sut y mae'r ymyriadau hyn yn effeithio ar y gyfradd gofrestru mewn addysg uwch ac addysg bellach. Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith bod angen tystiolaeth fwy cadarn ynghylch ymyriadau effeithiol, yn enwedig ar gyfer yr ymyriadau hynny sy'n targedu dysgwyr aeddfed, gofalwyr, lleiafrifoedd ethnig, a dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol. Pwysleisiodd yr adroddiad bwysigrwydd dilyn deilliannau hirdymor dysgwyr sydd wedi bod yn rhan o raglen sy'n cyflwyno ymyriad penodol.

- Archwiliodd adolygiad systematig (Baines, Gooch, ac Ng-Knight, 2022) sylfaen dystiolaeth gwerthusiadau a adolygwyd gan gymheiriaid o raglenni ehangu cyfranogiad y DU a gynhaliwyd o fewn yr 20 mlynedd diwethaf; ac a ydyw ymyriadau ehangu cyfranogiad yn newid agweddau ynghylch y brifysgol ar gyfer plant ysgol 16 oed yn y DU. Roedd yr ymyriadau mwyaf llwyddiannus yn dod â dysgwyr i gysylltiad â modelau rôl ac yn helpu dysgwyr i ddysgu sgiliau newydd. Fodd bynnag, amlygodd yr adroddiad fod astudiaethau achlysurol cyfyngedig o sut yr oedd ymyriadau'n effeithio ar agweddau ac ymddygiadau plant tuag at y brifysgol. Argymhellodd yr adolygiad y dylai rhaglenni ehangu cyfranogiad yn y dyfodol archwilio ac ystyried yn benodol y ddamcaniaeth sy'n sail i'r ymyriad, a defnyddio'r ddamcaniaeth i archwilio deilliannau ac effeithiau.

- Dadansoddodd adroddiad a gomisiynwyd gan Transforming Access and Student Outcomes (TASO) a gynhaliwyd gan y Sefydliad Polisi Addysg (Y Sefydliad Polisi Addysg, 2020) 92 o astudiaethau ar effaith ymyriadau ar gyfer ehangu mynediad i addysg uwch. Canfu'r adroddiad fod gweithgareddau wedi dylanwadu ar ddealltwriaeth a dyheadau dysgwyr, ond nad oes tystiolaeth gadarn o'u heffaith ar niferoedd cofrestru ar gyfer addysg uwch. Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith bod angen brys i fynd y tu hwnt i ganfyddiadau dysgwyr a dod i gasgliad ynghylch effaith y gweithgareddau hyn ar niferoedd cofrestru. Mae'r rhan fwyaf o waith ymchwil hyd yn hyn ynghylch ehangu mynediad wedi methu â phennu hyn. Hefyd, mae'r adroddiad yn argymell y dylai Llywodraeth y DU a'r sectorau addysg uwch wneud mwy i fonitro cynnydd dysgwyr a meithrin gwell dealltwriaeth o effaith

gweithgareddau ar ddisgyblion oedran ysgol dan anfantais, yn ogystal ag ar grwpiau megis dysgwyr hŷn, gofalwyr, y rhai sy’n gadael gofal, rhai dysgwyr ethnig leiafrifol, a dysgwyr galwedigaethol.

➢

## Methodoleg

Nid yw ehangu cyfranogiad a chynyddu cyfranogiad o fewn addysg uwch ac addysg bellach yn gysyniad newydd. Fel y trafodwyd uchod, mae sylfaen dystiolaeth fawr yn ymwneud ag ymyriadau yn y DU ar gyfer cynyddu cyfranogiad. Mae’r adolygiad hwn yn cyflwyno tystiolaeth yn ymwneud â’r prif ymyriadau yn y DU a ddatblygwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ochr yn ochr â thystiolaeth ryngwladol ehangach yn ymwneud ag ymyriadau llwyddiannus.

Cynhaliwyd adolygiad tystiolaeth cyflym rhwng Medi 2024 a Chwefror 2025. Mae'r adolygiad hwn yn cyflwyno tystiolaeth o dros 130 o ffynonellau (llenyddiaeth lwyd, llenyddiaeth academaidd, ffynonellau llywodraethol ag sector) ar y prif ymyriadau yn y DU a ddatblygwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ochr yn ochr â thystiolaeth ryngwladol ehangach ar ymyriadau llwyddiannus (UDA, Awstralia, Canada, Seland Newydd, yr Almaen).

Mae cwmpas addysg drydyddol yn yr adolygiad hwn yn cynnwys addysg uwch ac addysg bellach, ac yn ystyried ymyriadau sy’n targedu dysgwyr sy’n 16 oed a hŷn gan fod hyn yn gydnaws ag oedran addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Yn rhyngwladol, mae oedran addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn amrywio yn ôl gwlad. Mewn gwledydd lle mae’r oedran hwn wedi’i gyflinio, e.e. y Ffindir a Lloegr yn 18 oed, defnyddir addysg drydyddol fel mesuriad cyffredin er mwyn cynnal dadansoddiad cymharol (Morris, 2024).

Mae’r adolygiad tystiolaeth hwn yn rhan o gyfres o adolygiadau sy’n cael eu cynnal gan ddadansoddwyr o fewn gwasanaethau gwybodaeth a dadansoddeg yn Llywodraeth Cymru. Yn aml, mae’r ymyriadau a gwmpesir yn yr adolygiad hwn yn cynnwys sail resymegol sy’n seiliedig ar fynd i’r afael â rhwystrau i gyfranogiad. Er bod asesiad o’r dystiolaeth sy’n ymwneud â rhwystrau i gyfranogiad mewn addysg drydyddol y tu allan i gwmpas y gwaith hwn, mae adolygiad tystiolaeth ar wahân ar rwystrau i gyfranogiad ar y gweill, a bydd yn dilyn yr adolygiad hwn. Cynhelir adolygiad tystiolaeth ar wahân hefyd i archwilio dysgu oedolion (gan gynnwys sgiliau hanfodol).

## Ymyriadau i gynyddu cyfranogiad

Er bod rhai o’r ymyriadau sy’n targedu cyfranogiad wedi cael eu hystyried ar y cyd mewn adolygiadau tystiolaeth ar raddfa fawr, yma byddwn yn ystyried pwysau a chryfder tystiolaeth ar gyfer ymyriadau gwahanol, cyn ystyried cyfyngiadau gyda’r sylfaen dystiolaeth gyffredinol a’r argymhellion.

## Rhaglenni allgymorth ac ymwybyddiaeth gynnar

**Maes polisi: Allgymorth**

**Diffiniad:**
Mae allgymorth yn cyfeirio at fentrau a gweithgareddau—a drefnir fel arfer ar lefel sefydliadol—wedi'u cynllunio i godi dyheadau ac annog cyfranogiad mewn addysg drydyddol ymhlith darpar ddysgwyr.

**Lleoliadau:** Y DU, Cymru, Unol Daleithiau America, Awstralia, Chile, yr Almaen, yr Eidal

**Y sector y canolbwyntir arni:** Addysg uwch ac addysg bellach

**Cryfder y dystiolaeth:**
Mae tystiolaeth gref bod rhaglenni allgymorth ac ymwybyddiaeth gynnar yn llwyddo i gynyddu dyheadau dysgwyr i ymgymryd ag addysg uwch ac addysg bellach. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gyfyngedig bod y rhaglenni hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar lefelau cofrestru gwirioneddol mewn addysg uwch ac addysg bellach.

**Crynodeb o'r canfyddiadau:**

- Effaith ar ddysgwyr: Mae ymyriadau allgymorth yn tueddu i wella dealltwriaeth a dyheadau dysgwyr o ran addysg uwch. Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth gadarn ynghylch a ydyw'r ymyriadau hyn yn cynyddu niferoedd cofrestru gwirioneddol neu'n dylanwadu ar ba brifysgolion y mae unigolion yn mynd iddynt.
- Dylanwad rhieni: Mae rhieni'n chwarae rhan uniongyrchol ym mhenderfyniadau dysgwyr ynghylch addysg uwch. Mae rhieni dysgwyr dan anfantais yn arbennig o debygol o gwestiynu gwerth a chost addysg uwch. Felly, dylai allgymorth effeithiol gynnwys gweithgareddau sy'n ymgysylltu â theuluoedd ac yn helpu rhieni i ddeall opsiynau addysg uwch.

**Dewisiadau ar gyfer datblygu pellach:**

- Mesur effaith: Mae angen i werthusiadau fynd y tu hwnt i fesur canfyddiadau dysgwyr drwy ddefnyddio arolygon a sefydlu'r effaith ar niferoedd cofrestru. Mae angen astudiaethau hydredol sydd â meintiau samplau mwy, a chasglu data sylfaenol cyfranogwyr yn well. Mae angen cysylltu data hefyd er mwyn cofnodi dilyniant addysgol cyfranogwyr ar ôl iddynt ymgymryd â rhaglenni allgymorth ac ymwybyddiaeth gynnar.

- Monitro a gwerthuso: Mae'n hanfodol bod y cynllun monitro a gwerthuso ar gyfer ymyriad yn gydnaws â nod yr ymyriad hwnnw, er mwyn sicrhau y gellir mesur deilliannau ac effeithiau. Mae hyn yn cynnwys monitro tymor hwy i asesu cynnydd ar ôl cyflwyno rhaglenni allgymorth i ddisgyblion dan anfantais o oedran ysgol, a grwpiau dysgwyr penodol gan gynnwys dysgwyr hŷn, gofalwyr, y rhai sy'n gadael gofal, dysgwyr ethnig leiafrifol a dysgwyr galwedigaethol, a meithrin gwell dealltwriaeth o effaith ymyriadau a gweithgareddau ar yr unigolion hynny.

Nod rhaglenni allgymorth a rhaglenni ymwybyddiaeth gynnar yw ymgysylltu a chefnogi unigolion neu grwpiau o ddysgwyr a'u teuluoedd i godi ymwybyddiaeth am opsiynau addysg uwch, cymorth ariannol, a'r camau y mae eu hangen i baratoi ar gyfer y coleg a'r brifysgol; yn enwedig i'r rhai nad oes ganddynt fynediad at rai gwasanaethau neu wybodaeth. Y nod yw sicrhau bod unigolion yn wybodus ac yn gallu gwneud penderfyniadau rhagweithiol am eu llwybrau addysgol a gyrfa.

Mae llawer o'r rhaglenni allgymorth a ddarperir yn y DU wedi'u hanelu at bobl ifanc sy'n iau ac yn hŷn nag 16 oed. Mae rhaglenni a gynigir i ddysgwyr ôl-16 wedi'u hanelu at gynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch trwy godi lefelau dyheadau ym mlynyddoedd diweddarach yr ysgol uwchradd. Mae hyn er mwyn annog dysgwyr i barhau â'u haddysg hyd at addysg bellach ac, yn y pen draw, cyrraedd addysg uwch.

### Tystiolaeth y DU

Mae ymyriadau Llywodraeth Cymru fel y Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach (Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach, 2025) ac Academi Seren (Llywodraeth Cymru, 2025) yn targedu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac yn canolbwyntio ar ymgysylltu cynnar a chodi ymwybyddiaeth o addysg uwch drwy gynyddu dyhead.

Mae'r rhaglen Ymestyn yn Ehangach yn bartneriaeth rhwng prifysgolion, ysgolion a cholegau yng Nghymru sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella symudedd cymdeithasol drwy ehangu mynediad i bob math o addysg uwch. Ei nod yw cynyddu cyfranogiad grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch drwy godi dyheadau addysgol. Canfu adolygiad o'r rhaglen Ymestyn yn Ehangach (Hill a Hatt, 2012) sawl maes o arfer gorau gan gynnwys dull cadarn o gefnogi pobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, dull cyfannol lle'r oedd ehangu mynediad wedi'i gyflinio a'i integreiddio ag addysgu a dysgu, a chydraddoldeb ac amrywiaeth, a rhwydweithiau rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg. Ni ddarparodd yr adolygiad ddata meintiol i ddangos effaith y rhaglen hon ar niferoedd cofrestru ar gyfer addysg uwch,

ac amlygodd yr angen i wella'r defnydd o ddata ansoddol a meintiol i gefnogi a monitro'r gwaith o ehangu mynediad ac i weithio gyda phobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc sy'n gadael gofal (sy'n ymadael â'r system ofal) a gofalwyr y bobl ifanc. Mae'r adolygiad hefyd yn tynnu sylw at yr her o briodoli achosiaeth pan gyflwynir mentrau ehangu mynediad mewn modd integredig; at ddibenion gwerthuso, mae'n anodd gwahanu effaith Ymestyn yn Ehangach oddi wrth waith allgymorth ehangu mynediad sefydliadol ac ehangu mynediad oddi wrth ffrydiau cyllido eraill, gan gynnwys sefydliadau'r sector gwirfoddol.

Yn debyg i'r rhaglen Ymestyn yn Ehangach yng Nghymru, mae'r Rhaglen Allgymorth Cydweithredol Genedlaethol (NCOP) yn Lloegr (a ailenwyd yn Uni Connect ym mis Ionawr 2020) yn cynnwys 29 o bartneriaethau o brifysgolion, colegau, a phartneriaid lleol i gyflwyno rhaglenni allgymorth yn Lloegr gyda'r nod o gynyddu'r nifer o bobl ifanc ym mlynyddoedd 9 i 13 sy'n symud ymlaen i addysg uwch; yn enwedig o ardaloedd â chyfraddau cyfranogiad addysg uwch is, gyda'r nod o gynyddu eu mynediad at addysg uwch a'u llwyddiant ynddi drwy'r NCOP. Mae adroddiad cam 1 yr NCOP yn tynnu ar dystiolaeth o arolwg blynyddol o staff y bartneriaeth, 12 ymweliad maes â phartneriaethau unigol, arolwg sylfaenol ac arolwg dilynol o dros 4,000 o ddysgwyr a gymerodd ran yn y rhaglen, tri hap-dreial dan reolaeth, ac adolygiad ansoddol o dystiolaeth gwerthuso'r partneriaethau (CFE Research, 2019). Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ymyriadau allgymorth megis mentora, ysgolion haf, ac ymweliadau â champysau, yn cael eu gwella os yw'r rhaglen wedi'i thargedu at grwpiau blwyddyn hŷn, dysgwyr sydd â diddordeb mewn pwnc / disgyblaeth benodol, neu grwpiau demograffig penodol, megis dysgwyr dan anfantais.

Hefyd, awgrymodd y gwerthusiad fod gan rieni ddylanwad uniongyrchol ar ddewis addysg uwch y dysgwr. Mae'r digwyddiad allgymorth 'Menywod mewn STEM' a gynhaliwyd yn ystod cam 1 NCOP, yn awgrymu bod gan rieni, yn enwedig mamau, ddylanwad uniongyrchol ar ddewis addysg uwch y dysgwyr, ac mae'r dysgwyr wedi datgan yn yr arolygon fod eu mamau a'u tadau wedi cael effaith sylweddol ar eu proses o wneud penderfyniadau. Mae tystiolaeth hydredol yn ategu hyn gydag ymchwil Astudiaeth Hydredol Avon o Rieni a Phlant (ALSPAC) yn dangos bod disgwyliadau uwch gan famau o ran addysg eu plant yn gysylltiedig â pherfformiad academaidd gwell a mwy o debygrwydd y bydd plentyn yn ymgymryd ag addysg uwch (Northstone, K., 2023). Felly, er bod ymgysylltu â dysgwyr ac athrawon yn hanfodol, dylai rhaglenni allgymorth hefyd ymgysylltu â rhieni a hyrwyddo buddion addysg uwch.

Dangosodd digwyddiadau NCOP, megis 'Clwb Gwyliau Blwyddyn 10' a gweithgareddau a gynhaliwyd ar gampws addysg uwch, fod mwyafrif y dysgwyr yn gweld pellter fel problem pan fyddant yn ystyried gwneud cais i brifysgol. Roedd gan rai dysgwyr bryderon ynghylch byw i

ffwrdd o gartref ac roeddent yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth am lety neu sut y gallent wneud cais am fwrsariaethau ac ati. Mae'r adroddiad yn cynnig rôl yma ar gyfer allgymorth gan brifysgolion lleol drwy ysgolion a cholegau lleol.

Tynnodd adroddiad cam 1 NCOP sylw at y ffaith bod cael model rôl ar gyfer dysgwyr, drwy gynlluniau mentora, yn annog dysgwyr i feddwl am eu dyfodol ac yn cynyddu eu hunanhyder. Gallai hyn hefyd eu helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a pherfformio'n well yn yr ysgol. Byddai hwn yn ddeilliant canolradd i gynyddu'r tebygolrwydd o barhau mewn addysg ar ôl 16 oed. Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol (Prifysgolion Cymru, 2024) ar lefel ysgol uwchradd ar lefel TGAU a Safon Uwch mewn rhai rhannau o Gymru islaw cyfartaledd y DU (Y Sefydliad Polisi Addysg, Cymharu perfformiad TGAU yng Nghymru a Lloegr – yn gyfatebol ai peidio?, 2019). Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i ddysgwyr fodloni gofynion mynediad ar gyfer sefydliadau addysg uwch.

Holodd adroddiad yn gwerthuso rhaglen STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) Cymru (S4) (Bryan, R., Gagen, M.H., Bryan, W.A., ac eraill, 2022) 61 o bobl ifanc rhwng 13 a 18 oed, a oedd yn mynychu ysgolion yn Ne Cymru, ynghyd â chyfweliadau â thri athro. Canfu'r adroddiad fod cyfranogwyr wedi bod i un gweithdy, o leiaf, yn ymwneud â gwyddoniaeth ar gampws prifysgol. Amlygodd yr adroddiad fod y cyfranogwyr yn frwdfrydig, yn uchelgeisiol, ac yn hyderus yn eu galluoedd mewn gwyddoniaeth a meysydd sgiliau ehangach, ond roedd rhai agweddau ar uchelgais yn gysylltiedig â statws economaidd-gymdeithasol. Er enghraifft, er bod y rhan fwyaf o'r bobl ifanc a holwyd yn dyheu am fynd i'r brifysgol, rhoddodd y rhai nad oeddent yn gwneud hynny resymau gwahanol, yn dibynnu ar eu statws economaidd-gymdeithasol. Mae llawer o fyfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn pryderu am gostau uchel addysg prifysgol, gan gynnwys ffioedd dysgu, llety a threuliau byw eraill. Yn aml, nid yw'r myfyrwyr hyn yn cael digon o anogaeth a chefnogaeth gan eu teuluoedd, nad oes ganddynt efallai hanes o addysg uwch eu hunain. Mae rhai myfyrwyr yn teimlo'r angen i ymuno â'r gweithlu ar unwaith er mwyn cynnal eu teuluoedd yn ariannol, yn hytrach na dilyn addysg bellach. Mae canfyddiad ymhlith rhai myfyrwyr dan anfantais nad yw addysg prifysgol o bosibl yn arwain at gyfleoedd gwell o ran gwaith, neu nad yw'n berthnasol i'w dyheadau o ran gyrfa. Soniodd athrawon am lefelau isel o lythrennedd a rhifedd, tlodi yn y cartref, diweithdra sydd wedi hen wreiddio rhwng cenedlaethau, ynysu gwledig, anableddau, cyfrifoldebau gofalu, a beichiogrwydd ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau fel rhwystrau i addysg uwch i'w disgyblion.

System o ganolfannau ar draws ysgolion y wladwriaeth a cholegau addysg bellach yng Nghymru yw Rhwydwaith Seren (a elwir hefyd yn Academi Seren), sydd â'r nod o gynorthwyo

dysgwyr i gyrraedd eu potensial academaidd. Mae rhaglen Academi Seren ar gael i Flynyddoedd 8–13 gyda ffocws ar ddysgwyr ym Mlynyddoedd 12 a 13 (16–18 oed) (Llywodraeth Cymru, 2025). Mae'r ymyriadau'n canolbwyntio ar weithgareddau allgyrsiol drwy weithdai, darlithoedd a seminarau sydd â'r nod o ddyfnhau gwybodaeth dysgwyr am bwnc penodol a chynyddu eu sgiliau academaidd. Mae gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ehangu cyfleoedd i ddysgwyr symud ymlaen i brifysgolion uchel eu statws yn cynnwys ymweliadau â phrifysgolion, gan gynnwys prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Yn ystod yr ymweliadau hyn, bydd dysgwyr yn mynd i sesiynau academaidd i gael cipolwg ar fywyd yn y brifysgol. Mae'r Rhwydwaith Seren hefyd yn cynnwys mentora i gynorthwyo dysgwyr gyda cheisiadau prifysgol, datganiadau personol, a sut i baratoi ar gyfer cyfweliadau.

Argymhellodd y gwerthusiad o Rwydwaith Seren Cymru (2018) (Llywodraeth Cymru, 2018) y dylid sefydlu cytundeb rhannu data rhwng Seren a darparwyr addysg uwch i roi cyfle i allu arddangos yr effaith y mae Seren yn ei chael ar gyfraddau cyfranogiad mewn addysg uwch. Mae astudiaethau achos yn dangos yr effaith y mae Rhwydwaith Seren Cymru yn ei chael ar ddysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2024); fodd bynnag, byddai casglu data meintiol ynghylch a ydyw'r ymyriad yn arwain at gynnydd mewn cyfranogiad mewn addysg uwch, ac o ran pa brifysgolion y mae dysgwyr yn mynd ymlaen iddynt, yn gwella hygrededd y rhaglen.

Canolbwyntiodd adroddiad gan Pickering (Pickering, N., 2021) ar ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd o ansawdd uchel am gyfleoedd a buddion addysg uwch trwy weithdai gyda dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn draddodiadol, mewn addysg uwch. Y deilliannau disgwyliedig oedd cynyddu eu hyder a'u sgiliau i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol mewn addysg uwch. Canfu'r gwerthusiad fod effeithiolrwydd yr ymyriad yn gyfyngedig oherwydd presenoldeb gwael yn y gweithdai, ac mai'r dysgwyr a gafodd budd oedd y rhai a oedd eisoes yn dilyn llwybr addysg uwch.

### Tystiolaeth ryngwladol

Yn 2023, cynhaliodd academyddion adolygiad systematig o raglenni allgymorth a dargedwyd at bobl ifanc mewn addysg ail lefel (addysg oedran uwchradd) (Chorcora, E.N., Bray, A., Banks, J., 2023) i gynyddu cyfranogiad grwpiau economaidd-gymdeithasol isel neu grwpiau sydd wedi'u hymylu mewn addysg uwch. Cyhoeddwyd yr astudiaethau a gynhwyswyd yn yr adolygiad rhwng 2012 a 2022, ac roedd 19 astudiaeth wedi'u cynnwys (10 a gynhaliwyd yn yr Unol Daleithiau, tair a gynhaliwyd yn Awstralia, un yn Chile a phump yn Ewrop rhwng y Deyrnas Unedig, yr Almaen a'r Eidal).  Canfu'r adolygiad fod rhaglenni allgymorth wedi cael effeithiau cadarnhaol ar barodrwydd dysgwyr i fynd i goleg addysg bellach, eu dyheadau

addysgol, a'u cofrestriad â choleg (sy'n cyfateb i lefel prifysgol yn y DU). Roedd yr ymyriadau mwyaf effeithiol yn cynnwys:

- ymyriadau ar sail canllawiau – mae'r rhain yn cynnwys canllawiau gyrfaoedd, cymorth gyda cheisiadau coleg, a gweithdai cymorth ariannol;

- ymyriadau amlddimensiwn – cyfuno nifer o gydrannau, megis cymorth academaidd, mentora, a gweithgareddau allgyrsiol;

- ymyriadau addysgegol – sy'n cynnwys dulliau addysgu arloesol a newidiadau i'r cwricwlwm wedi'u cynllunio i ymgysylltu â dysgwyr a gwella eu perfformiad academaidd drwy weithgareddau ystafell ddosbarth ar y cyd; ac

- ymyriadau ymgysylltu â'r gymuned a rhieni – cynnwys rhieni a'r gymuned yn nhaith addysgol dysgwyr drwy weithdai ar gyfer rhieni a digwyddiadau cymunedol.

Pwysleisiodd yr adolygiad yr angen am ddiffiniad clir o beth yw 'llwyddiant', a sicrhau cysondeb wrth fesur deilliannau addysgol. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith y byddai cydweithio cryf rhwng ysgolion a phrifysgolion o gymorth i'r angen am astudiaethau hydredol â meintiau sampl mwy, yn ogystal â'r gwaith o gasglu data sylfaenol y cyfranogwyr. Tynnodd astudiaethau sylw hefyd at bwysigrwydd mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae dysgwyr dan anfantais yn eu hwynebu.

Yn yr Unol Daleithiau, cyflwynwyd rhaglen baratoi ar gyfer addysg uwch o'r enw GEAR UP (Gaining Early Awareness and Readiness for Undergraduate Programmes) ar lefel genedlaethol ym 1998, gyda'r grantiau cyntaf yn cael eu dyfarnu ym 1999 ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau wedi'u hanelu at ddosbarth 7 (12–13 oed) hyd at ddosbarth 12 (17–18 oed). Nod rhaglen GEAR UP yw cynyddu mynediad i addysg uwch i ddysgwyr incwm isel ac fe'i targedwyd at ysgolion ag o leiaf 50 y cant o'u dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu am gost is (GEAR UP, Talaith Washington, 2018). Canolbwyntiodd gwerthusiad cenedlaethol o GEAR UP (Adran Addysg yr Unol Daleithiau, Swyddfa'r Is-ysgrifennydd, Gwasanaeth Astudiaethau Polisi a Rhaglenni, 2003) ar ddwy flynedd gyntaf y rhaglen, gan gynnwys gwybodaeth gan 18 o ysgolion. Ymhlith y prif weithgareddau a gwasanaethau a gynigiwyd i ddysgwyr oedd:

- cymorth academaidd drwy diwtora a gwersylloedd haf â'r nod o helpu dysgwyr i wella eu sgiliau academaidd a'u perfformiad;

- gweithgareddau i gyflwyno'r coleg trwy ymweliadau â'r coleg a sesiynau gwybodaeth a wnaeth gynyddu ymwybyddiaeth o addysg ôl-uwchradd;

- gweithdai wedi'u cynllunio i ymgysylltu â rhieni, gyda'r nod o annog rhieni i gefnogi dyheadau academaidd a choleg eu plant;

- gwybodaeth am gymorth ariannol fel bod dysgwyr a rhieni'n deall yr opsiynau cymorth ariannol sydd ar gael, e.e. ysgoloriaethau, grantiau, a'r broses FAFSA (Cais am ddim am gymorth ffederal i fyfyrwyr).

Dangosodd y gwerthusiad mai tiwtora oedd y gwasanaeth mwyaf cyffredin a gynigiwyd ar draws safleoedd yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, ynghyd â gweithgareddau cynllunio coleg wedi'i gynnig ym mron pob prosiect. Yn gyffredinol, nid oedd cymaint o bobl yn ymgymryd â rhaglenni'r haf ag y disgwyliwyd, ac roedd llawer o bartneriaethau GEAR UP yn lleihau gweithgareddau rhaglenni'r haf. Dangoswyd bod GEAR UP yn dylanwadu'n gadarnhaol ar wybodaeth a disgwyliadau rhieni ynghylch addysg eu plant. Canfuwyd bod rhieni dysgwyr GEAR UP yn fwy cysylltiedig ag addysg eu plentyn, ac roedd ganddynt ddisgwyliadau academaidd uwch ohonynt.

Archwiliodd adroddiad (Johnson, C.C., MayDrexel, T., Janet, B., Walton, J., Bolshakova, V., 2023) weithrediad rhaglen GEAR UP (SGUP) yn y dalaith, mewn ardal ysgol drefol, a'r deilliannau o ran parodrwydd coleg a gyrfa cysylltiedig ar sail cyfranogiad o'r seithfed i'r degfed dosbarth. Archwiliodd yr astudiaeth yr effaith ar sgoriau Prawf Gallu Ysgolaidd Rhagarweiniol (PSAT) mewn perthynas â disgyblion dosbarth 10 (15–16 oed), gan gymharu'r garfan SGUP â grŵp cymharu o ddysgwyr blaenorol dosbarth 10 o'r un ysgol uwchradd fawr, drefol. Mae ymchwil wedi dangos bod sgoriau PSAT yn dangos a ydyw dysgwyr yn nosbarthiadau 10 ac 11 ar y trywydd iawn i fod yn barod ar gyfer gwaith cwrs lefel coleg. Canfu'r astudiaeth fod dysgwyr GEAR UP wedi perfformio'n sylweddol well na'r grŵp cymharu o ran eu sgôr PSAT cyfun, yn ogystal â mewn is-brofion mathemateg a darllen.

At ei gilydd, mae tystiolaeth yn awgrymu bod menter GEAR UP wedi cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch, yn enwedig ymhlith dysgwyr incwm isel. Canfu astudiaeth (Fogg, N.P., a Harrington, P.E., 2015) a fu'n canolbwyntio ar y rhaglen GEAR UP gan College Crusade of Rhode Island fod 77% o gyfranogwyr GEAR UP wedi graddio o'r ysgol uwchradd ar amser, o'u cymharu â 67% o grŵp

cymharu cyfatebol. Mae cyfranogwyr yn fwy tebygol o barhau yn y coleg (sy'n cyfateb i addysg uwch yn y DU) ar ôl eu blwyddyn gyntaf, sy'n dangos bod buddion y rhaglen yn parhau i addysg uwch.

Nod rhaglen Upward Bound (Adran Addysg yr Unol Daleithiau, 2025), sy'n rhan o Raglen TRIO Ffederal[2] yr Unol Daleithiau, yw cynorthwyo dysgwyr 13–19 oed sydd wedi cwblhau'r wythfed dosbarth, sydd o deuluoedd incwm isel, a'r rhai nad oes gan eu rhieni radd baglor. Mae'r rhaglen yn darparu hyfforddiant mewn pynciau penodol ac yn cynnig gwasanaethau tiwtora, cwnsela, a mentora. Mae Upward Bound yn helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer mynediad i'r coleg trwy gynnig arweiniad ar ail-fynediad i'r ysgol uwchradd, rhaglenni addysg amgen, ac addysg llythrennedd ariannol. Mae cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi diwylliannol a rhaglenni astudio-gweithio, wedi'u cynllunio i ehangu eu profiadau addysgol a'u paratoi ar gyfer bywyd coleg. Mae'r rhaglen yn cefnogi'n benodol ddysgwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn draddodiadol, mewn addysg ôl-uwchradd, dysgwyr ag anableddau, dysgwyr digartref, a'r rhai mewn gofal maeth. Er enghraifft, mae'r rhaglen (Mathematica Policy Research, Inc, 2007) yn dyfarnu grantiau i golegau a phrifysgolion i ddarparu profiad ymarferol mewn labordai, cyfleusterau cyfrifiadurol, ac ar safleoedd maes, yn ogystal â chyfleoedd i ddysgu gan fathemategwyr a gwyddonwyr mewn sefydliadau cynnal. Canfu adroddiad 2007 ar raglen UBMS (Upward Bound Mathemateg a Gwyddoniaeth) effaith gadarnhaol ar gofrestru ôl-uwchradd, yn enwedig mewn sefydliadau pedair blynedd, ac roedd cynnydd yn nifer y cyfranogwyr yn cofrestru mewn colegau pedair blynedd ac yn cwblhau graddau mewn meysydd STEM. Roedd cyfranogwyr yn fwy tebygol o gofrestru yn y coleg yn syth ar ôl yr ysgol uwchradd na'u cymheiriaid nad oedd yn cymryd rhan. Canfu'r adroddiad, er bod tystiolaeth o debygolrwydd cynyddol o ennill tystysgrif ôl-uwchradd, fod yr effaith ar raddau baglor neu raddau cysylltiol yn llai clir, ac roedd rhai astudiaethau'n nodi nad oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol.

[2] Sefydlwyd y Rhaglen TRIO Ffederal o dan Ddeddf Addysg Uwch 1965 i helpu dysgwyr dan anfantais.

## Derbyniadau cyd-destunol / derbyniadau cyfannol / model cyfle cyfartal

**Maes polisi:** Derbyniadau cyd-destunol

**Diffiniad:** Mae derbyniadau cyd-destunol yn cyfeirio at y defnydd o wybodaeth a data gan brifysgolion i asesu cyrhaeddiad a photensial blaenorol ymgeisydd yng nghyd-destun ei amgylchiadau unigol.

**Lleoliadau:** Y DU, Cymru, Unol Daleithiau America, Awstralia, Canada, Seland Newydd

**Y sector y canolbwyntir arni:** Addysg uwch

**Cryfder y dystiolaeth:**
Mae tystiolaeth dda bod derbyniadau cyd-destunol yn cynyddu cyfranogiad ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau'n gyson ar draws pob sefydliad addysg uwch.

**Crynodeb o'r canfyddiadau:**

- Yr effaith ar gofrestru:
  Mae derbyniadau cyd-destunol yn llwyddiannus wrth gynyddu cofrestriad grwpiau difreintiedig mewn addysg uwch. Fodd bynnag, ar ôl cofrestru, mae angen cymorth cyfannol, parhaus i helpu dysgwyr o gefndiroedd amrywiol i ffynnu. Mae hyn yn cynnwys cynghori academaidd, mentora, a chymorth ariannol i gadw'r myfyrwyr a sicrhau eu llwyddiant. Mae cymorth cyfannol yn ystod y flwyddyn gyntaf yn y brifysgol yn arbennig o bwysig i ddysgwyr o gefndiroedd dan anfantais.
- Yr effaith ar gadw:
  Mae darparu cymorth cyfannol (cyngor gyrfaoedd, tiwtora, a chymhellion ariannol) drwy gydol cyfnod myfyriwr yn y brifysgol yn cynyddu cyfraddau cwblhau yn sylweddol. Mae dysgwyr sy'n cael cymorth o'r fath yn fwy tebygol o gael cyflogau uwch na'r rhai nad ydynt yn ei gael.
- Rhannu data:
  Ers 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu data cymhwysedd prydau ysgol ar lefel unigol yn ffurfiol gydag UCAS fel y gellir ei baru ag ymgeiswyr o Gymru a'i ddarparu i brifysgolion fel gwybodaeth gyd-destunol. Mae rhai o brifysgolion Cymru,

gan gynnwys Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, yn defnyddio data a ddarperir drwy'r cais UCAS (gan gynnwys ffactorau cefndir a chyd-destunol) i lywio derbyniadau cyd-destunol

**Dewisiadau ar gyfer datblygu pellach:**

*Dylai Llywodraeth Cymru a Medr gydweithio â darparwyr addysg uwch i gryfhau tryloywder a chydlyniant derbyniadau cyd-destunol ledled Cymru a gwella'r defnydd o ddangosyddion anfantais i gefnogi mynediad a chyfranogiad teg*

---

## Tystiolaeth y DU

Mae llawer o brifysgolion y DU wedi mabwysiadu'r dull o dderbyn myfyrwyr yn ôl cyd-destun (Mountford-Zimards, Moore, a Graham, 2016) ac mae'n debyg i'r model cyfle cyfartal. Mae derbyniadau cyd-destunol yn ei gwneud yn ofynnol i brifysgolion ystyried y cyd-destun y cafodd cyflawniadau academaidd ymgeisydd ei sicrhau ynddo. Fodd bynnag, mae cyfle cyfartal yn gysyniad ehangach sy'n sicrhau bod gan bob unigolyn yr un cyfleoedd i ddilyn eu nodau, waeth beth fo'u cefndir ac mae'n cynnwys addysg, cyflogaeth, a symudedd cymdeithasol. Ystyrir cymwysterau darpar ddysgwyr ochr yn ochr â'u cefndir economaidd-gymdeithasol. Nod y dull hwn yw ehangu mynediad dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais i addysg uwch. Mae hyn yn wahanol i'r model *cyfle cyfartal*, pan fo lleoedd mewn prifysgolion yn cael eu dyfarnu i'r ymgeiswyr mwyaf cymwys waeth beth fo'u cefndir cymdeithasol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae derbyniadau cyd-destunol wedi cael eu trafod yn helaeth, gyda beirniadaeth o'r defnydd o ddangosyddion lefel cymdogaeth (megis y mesur 'POLAR') yn hytrach na dangosyddion lefel aelwydydd (megis bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim) (Gorard, 2019; Harrison a McCaig, 2015). Mae Adran Addysg y DU wedi dechrau rhannu data prydau ysgol am ddim ar lefel unigol â phrifysgolion drwy UCAS (UCAS, 2021) a allai helpu prifysgolion i dargedu eu dulliau derbyn cyd-destunol yn fwy effeithiol (Martin, 2024). Yn ôl yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), bu cynnydd nodedig yng nghyfran y myfyrwyr o'r ardaloedd mwyaf dan anfantais (cwintel mynegai amddifadedd lluosog 1) sy'n cael mynediad at addysg uwch. Yn benodol, mae'r ganran wedi codi o 19% i 21% ers 2021 (HESA, 2022).

Canfu adroddiad gan Ymddiriedolaeth Sutton (Boliver, Crawford, Powell, a Craige, 2017) nad oedd prifysgolion a oedd yn ymarfer cyd-destunoli yn gweld cyfraddau rhoi'r gorau iddi yn sylweddol uwch na chyfraddau cwblhau graddau is ymhlith dysgwyr a dderbyniwyd drwy'r prosesau hyn. Mae hyn yn awgrymu y gallai derbyniadau cyd-destunol fod yn ffordd effeithiol

o ehangu mynediad heb beryglu safonau academaidd a chyfraddau cwblhau. Hefyd, amlygodd adolygiad (Mountford-Zimards, Moore, a Graham, 2016) y gallai derbyniadau cyd-destunol wella mynediad yn benodol i sefydliadau addysg uwch dethol ar gyfer dysgwyr dan anfantais. Adroddodd y Swyddfa Fyfyrwyr fod gan ddysgwyr a dderbynnir trwy dderbyniadau cyd-destunol duedd i fod â chyfraddau cadw tebyg neu well o'u cymharu â'u cymheiriaid o gefndiroedd mwy breintiedig.

Cynhaliwyd adolygiad helaeth o'r llenyddiaeth bresennol ar dderbyniadau cyd-destunol i ddeall y dirwedd gyfredol a nodi bylchau mewn ymchwil (Mountford-Zimards, Moore, a Graham, 2016). Mae'r adolygiad yn cynnwys astudiaethau achos o wahanol ddarparwyr addysg uwch sydd wedi gweithredu polisïau derbyn cyd-destunol sy'n rhoi cipolwg ar sut y mae derbyniadau cyd-destunol yn cael eu cymhwyso'n ymarferol a'u deilliannau. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod sicrhau bod dysgwyr sy'n cael eu derbyn yn ôl cyd-destun yn cael cymorth academaidd a chymdeithasol ddigonol yn hanfodol ar gyfer eu llwyddiant. Mae hyn oherwydd bod myfyrwyr a dderbynnir yn ôl cyd-destun yn aml yn dod o gefndiroedd amrywiol, a gallant wynebu heriau unigryw nad yw eu cymheiriaid yn eu hwynebu. Mae cymorth digonol yn helpu i bontio bylchau mewn paratoad academaidd ac integreiddio cymdeithasol. Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at y ffaith bod cymorth academaidd a chymdeithasol yn helpu myfyrwyr i feithrin yr hyder a'r sgiliau y mae eu hangen i ffynnu mewn amgylchedd addysg uwch drwy ddatblygu ymddygiadau astudio effeithiol, rheoli amser, a sgiliau rhyngbersonol. Felly, mae effeithiolrwydd derbyniadau cyd-destunol hefyd yn dibynnu ar y cymorth a ddarperir i'r dysgwyr hyn ar ôl iddynt gael eu derbyn.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru a Medr yn gweithio'n weithredol ar bolisïau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn addysg drydyddol (Sibieta, Miles, Boliver, a Hazelkorn, 2024)

Yng Nghymru, awgrymodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd (Prifysgol Metropolitan Caerdydd, 2024) y byddai dangosyddion cyd-destunol yn cael eu defnyddio ar gyfer cylch derbyniadau 2024. Mae hyn yn golygu y bydd gwybodaeth gyd-destunol a ddarperir fel rhan o geisiadau UCAS yn cael ei defnyddio, gan gynnwys:

- profiad o fod mewn gofal;
- rhieni / gwarcheidwaid nad ydynt wedi mynychu'r brifysgol;

- byw mewn ardal â chyfradd isel o unigolion yn symud ymlaen i addysg uwch (a nodwyd o sgôr POLAR o ran cyfranogiad ardaloedd lleol);

- mynegeion amddifadedd lluosog Cymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon;

- presenoldeb mewn ysgol â chyfraddau is na'r cyfartaledd o bobl ifanc sy'n ymgymryd ag addysg uwch, neu'r rhai sydd â nifer uwch o ddysgwyr o gymdogaethau sydd â chyfradd is o bobl ifanc sy'n ymgymryd ag addysg uwch;

- cwblhau rhaglen ehangu cyfranogiad achrededig yn y brifysgol.

## Tystiolaeth ryngwladol

Yn yr Unol Daleithiau, mae llawer o brifysgolion yn defnyddio proses dderbyn gyfannol, megis derbyniadau cyd-destunol, gan ystyried ffactorau megis hil, ethnigrwydd, statws economaidd-gymdeithasol, a chyflawniadau allgyrsiol wrth asesu ymgeiswyr (Coleman. A.L., Keith J.L., 2018). Mae prifysgolion mawreddog gan gynnwys Harvard, Stanford, a Phrifysgol Califfornia yn arweinwyr o ran mabwysiadu'r arferion hyn. Fodd bynnag, cyfyngodd dyfarniad diweddar Goruchaf Lys yr Unol Daleithiau yn 2023 yn sylweddol ar y defnydd o hil mewn derbyniadau coleg, gan ddatgan bod rhaglenni o'r fath yn torri cymal gwarchod cyfartal Cyfansoddiad y wlad (ymchwil a pholisi addysg Canolfan Rennie, 2024). Lle byddai derbyniadau cyd-destunol yn canolbwyntio ar amgylchiadau unigol heb ystyried hil yn benodol, megis cyflawniadau a chefndir economaidd-gymdeithasol ymgeisydd, roedd polisïau 'gweithredu cadarnhaol' yn anelu'n benodol at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn ymwneud â hil a rhywedd, sydd bellach wedi'i gwtogi gan ddyfarniad y Goruchaf Lys. Daeth y dyfarniad hwn â gweithredu cadarnhaol ar sail hil mewn perthynas â derbyniadau coleg i ben i bob pwrpas, gan ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddod o hyd i ffyrdd eraill o hyrwyddo amrywiaeth (Howe, 2023).

Mae buddion derbyniadau cyfannol yn yr Unol Daleithiau, gan ystyried amrywiaeth o ffactorau y tu hwnt i sgoriau profion safonol, yn cynnwys cynnydd mewn amrywiaeth a chynnal safonau academaidd mewn addysg uwch, ac mae prifysgolion yn derbyn dysgwyr mwy amrywiol o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, hilion, ac ethnigrwydd amrywiol (Liu, 2022). Canfu astudiaeth genedlaethol gan Urban Universities for Health (Urban Universities for Health, 2014) fod derbyniadau cyfannol wedi cynyddu amrywiaeth yn sylweddol mewn ysgolion proffesiynau iechyd. Adroddodd arweinwyr o 91% o'r ysgolion hyn effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys derbyn dysgwyr a oedd yn wynebu rhwystrau i lwyddiant, ac a fyddai wedi cael eu

heithrio o dan brosesau derbyn traddodiadol. Mae'r adroddiad yn dangos bod dysgwyr sy'n cael eu derbyn drwy brosesau adolygu cyfannol yn perfformio'n dda yn academaidd. Mae gwerthusiad cynhwysfawr o botensial ymgeisydd drwy ystyried ffactorau megis arweinyddiaeth, gwasanaeth cymunedol, a heriau personol yn helpu i nodi dysgwyr sy'n debygol o lwyddo a chyfrannu'n gadarnhaol at fywyd prifysgol. Mae Lui yn tynnu sylw at y ffaith bod arferion a meini prawf yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau addysg ledled yr Unol Daleithiau, felly ni chyflawnir cysondeb a thegwch ymhlith sefydliadau addysg uwch (Liu, 2022).

Yn Awstralia, mae prifysgolion wedi datblygu rhaglenni tegwch sy'n ymgorffori ffactorau cyd-destunol mewn penderfyniadau derbyn, fel y Cynllun Tegwch Derbyniadau (Canolfan Derbyn y Prifysgolion, 2025). Mae'r rhaglen hon yn darparu pwyntiau ychwanegol i ddysgwyr o gefndiroedd dan anfantais yn ystod y broses dderbyn. Mae ymchwil gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Tegwch i Fyfyrwyr mewn Addysg Uwch, sydd bellach yn cael ei adnabod fel Canolfan Awstralia ar gyfer Tegwch a Llwyddiant Myfyrwyr, yn awgrymu bod derbyniadau cyd-destunol yn Awstralia wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol mewn cofrestru dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel ac ardaloedd gwledig neu anghysbell .

Yng Nghanada, mae prifysgolion fel Prifysgol Toronto yn cynnig gwarant mynediad i ddysgwyr o deuluoedd incwm isel, ac mae Prifysgol Columbia Brydeinig yn ymgorffori cyd-destun personol yn ei phroses dderbyn. Tynnodd astudiaeth gan People for Education (Bastedo, Umbricht, Bausch, Byun, a Bai, 2023) sylw at y ffaith bod polisïau derbyn cyd-destunol wedi bod yn effeithiol wrth gynyddu cyfran y dysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ym mhrifysgolion Canada. Mae hyn wedi arwain at fwy o symudedd cymdeithasol a thegwch, gyda gwell mynediad at addysg uwch yn arwain at ddeilliannau economaidd a chymdeithasol gwell ar gyfer dysgwyr dan anfantais. Dadansoddodd yr astudiaeth set ddata o 2.3 miliwn o fyfyrwyr, a chanfu fod dangosyddion cyd-destunol o ddosbarthiadau ysgolion uwchradd a phrofion safonedig â chysylltiad cryf â llwyddiant myfyrwyr yn y brifysgol. Canfu'r adroddiad fod proses adolygu gyfannol, sy'n ystyried proffil cyfan ymgeisydd, yn hytrach na graddau a sgoriau profion yn unig, yn helpu i nodi dysgwyr sydd â'r potensial i lwyddo er gwaethaf y ffaith eu bod yn wynebu heriau sylweddol.

Yn Seland Newydd, pwysleisiodd Zepke ac eraill yr angen nid yn unig am dderbyn cyfannol, ond cymorth cyfannol a pharhaus i sicrhau y gall dysgwyr o gefndiroedd amrywiol ffynnu (Zepke, Leach, a Prebble, 2024). Mae hyn yn cynnwys cynghori academaidd, mentora, a chymorth ariannol i gynorthwyo cadw myfyrwyr a llwyddiant. Pwysleisiodd eu hadroddiad fod

cymorth academaidd wedi'i dargedu ar gyfer dysgwyr blwyddyn gyntaf, a rhaglenni mentora wedi profi'n effeithiol wrth helpu dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais i lwyddo. Mae'r adroddiad yn argymell addasu arferion i ddiwallu anghenion corff dysgwyr amrywiol yn well. I gyflawni hyn, dylid casglu a dadansoddi data'n rheolaidd ar berfformiad ac ymgysylltiad dysgwyr er mwyn nodi meysydd i'w gwella ac i gynorthwyo prosesau gwneud penderfyniadau.

Yn yr Unol Daleithiau, mae'r Rhaglen Gyswllt Astudio Carlam (ASAP), a redwyd yn wreiddiol gan Brifysgol Dinas Efrog Newydd (CUNY), ac a roddwyd ar waith yn Ohio, yn enghraifft o sut y gall cymorth cyfannol a gynigir i ddysgwyr dan anfantais wella cyfraddau graddio drwy eu helpu i oresgyn anawsterau ariannol, academaidd, ac amserlennu sy'n tanseilio ennill gradd. Mae rhaglen ASAP yn darparu cymorth i gwblhau gradd gysylltiol (sy'n cyfateb i flwyddyn o radd prifysgol israddedig yn y DU) trwy ddarparu cymorth academaidd, personol, ac ariannol helaeth i ddysgwyr, gan gynnwys cofrestru llawn amser gofynnol, cynghorwyr pwrpasol, cyngor gyrfaoedd, tiwtora, a chymhellion ariannol, megis contractau dysgu, MetroCard ar gyfer cludiant, a gwerslyfrau am ddim.

Bu un astudiaeth (Levin a Garcia, 2012) yn ystyried pa mor gosteffeithiol yw rhaglen ASAP ym Mhrifysgol Dinas Efrog Newydd (CUNY). Fe'i cyfrifwyd drwy gymharu costau'r rhaglen â'r buddion ariannol y mae'n eu cynhyrchu. Mae cyfanswm cost y rhaglen ASAP yn cynnwys adnoddau ychwanegol, megis cyngor academaidd gwell, tiwtora, gwasanaethau gyrfaoedd, a chymorth ariannol. Mae'r costau hyn yn uwch na chostau rhaglenni gradd gysylltiol traddodiadol. Mesurir y buddion o ran cyfraddau graddio uwch, enillion oes uwch i raddedigion, ac arbedion o ran gwariant cyhoeddus (e.e. llai o ddibyniaeth ar gymorth cyhoeddus, costau cyfiawnder troseddol is). Mae'r astudiaeth yn defnyddio cymhareb cost a budd i gymharu'r enillion ariannol â'r costau. Am bob doler a fuddsoddir yn y rhaglen ASAP, mae'r enillion rhwng tri a phedair doler i drethdalwyr. Mae'r gymhareb hon yn deillio o'r refeniw trethi cynyddol a'r gwariant cyhoeddus is sy'n gysylltiedig â chyfraddau graddio uwch a chanlyniadau gwell o ran cyflogaeth i raddedigion y rhaglen ASAP. Canfu'r astudiaeth fod y rhaglen ASAP wedi dyblu cyfraddau graddio dysgwyr a gymerodd ran ynddi o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn cymryd rhan; graddiodd 55% o ddysgwyr yn y rhaglen ASAP o fewn tair blynedd, o gymharu â 25% o ddysgwyr grŵp cymharu cyfatebol. Datgelodd y dadansoddiad nad yw'r rhaglen ASAP yn effeithiol yn unig, ond ei bod hefyd yn gost-effeithiol. Mae llwyddiant y rhaglen ASAP yn CUNY wedi arwain at ei hefelychu yn Ohio, a'i haddasu ar gyfer colegau pedair blynedd drwy'r rhaglen Cyflymu, Cyflawni, Cysylltu (ACE). Canfu hap-dreialon dan reolaeth o raglen ASAP a gynhaliwyd yn Efrog Newydd ac Ohio gynnydd mawr ac ystadegol arwyddocaol yng nghyfraddau graddio o'r coleg (Social Programs That Work,

2024). Dangosodd rhaglen ASAP gynnydd o 11 i 15 pwynt canran mewn cyfraddau cwblhau gradd ddwy flynedd neu bedair blynedd o hyd. Canfu astudiaeth Ohio o raglen ASAP hefyd gynnydd ystadegol arwyddocaol mewn enillion blynyddol chwe blynedd ar ôl mynediad i'r astudiaeth, gyda chynnydd o 11% ($1,948) mewn enillion blynyddol cyfartalog ar gyfer y sawl a gymerodd ran yn y rhaglen ASAP o'u cymharu â'r grŵp rheoli. Mae llwyddiant y rhaglen ASAP yn CUNY wedi arwain at ei hefelychu yn Ohio, a'i haddasu ar gyfer colegau pedair blynedd drwy'r rhaglen Cyflymu, Cyflawni, Cysylltu (ACE). Tra bod y rhaglen ASAP yn canolbwyntio ar ddysgwyr gradd gysylltiol mewn colegau cymunedol, mae rhaglen ACE wedi'i chynllunio ar gyfer dysgwyr gradd baglor mewn colegau pedair blynedd. Mae'r addasiadau hyn hefyd wedi dangos deilliannau cadarnhaol, gan wirio ymhellach fodel y rhaglen a'r angen nid yn unig am dderbyn cyfannol ond cymorth cyfannol a pharhaus i sicrhau y gall dysgwyr o gefndiroedd amrywiol ffynnu ac i gynyddu cyfraddau graddau ymhlith cefndiroedd amrywiol.

Ochr yn ochr â'r buddion a welwyd, mae sawl anfantais yn gysylltiedig â defnyddio'r dulliau hyn. Mae derbyniadau cyfannol yn cyflwyno goddrychedd a rhagfarn bosibl i'r broses o wneud penderfyniadau (Liu, 2022). Efallai bod gan y rhai sy'n gyfrifol am dderbyniadau ragfarnau diarwybod sy'n effeithio ar y rhai sy'n cael eu derbyn, ac a allai arwain at ganlyniadau anghyson ac annheg. Pan fydd y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer derbyniadau cyfannol yn wahanol i brifysgolion eraill, ac nad ydynt wedi'u diffinio na'u cyfleu'n glir, gall hyn arwain at ymgeiswyr sydd wedi bod yn aflwyddiannus yn gweld y broses fel un annheg ac yn methu â deall pam nad ydynt wedi bod yn llwyddiannus. Hefyd, gall y broses o adolygu'r ceisiadau â data ansoddol ychwanegol, e.e. llythyrau argymhelliad, gwybodaeth gefndirol am yr ymgeisydd, olygu mwy o adnoddau yn weinyddol, ac o bosibl yn gostus (Finn, 2022).

## Cymorth ariannol (trwy ysgoloriaethau neu fenthyciadau)

**Maes polisi:** Cymhellion ariannol

**Lleoliadau:** Y DU, Unol Daleithiau America

**Y sector y canolbwyntir arni:** Addysg uwch ac addysg bellach

**Cryfder y dystiolaeth:** Mae sylfaen dystiolaeth fach ond gadarn bod cymorth ariannol yn cynorthwyo cyfranogiad ac yn gwella cyfraddau parhau ag addysg bellach ac addysg uwch.

**Crynodeb o'r canfyddiadau:**

- Mae diffyg data cynhwysfawr yn ymwneud ag effeithiau hirdymor cymorth ariannol.
- Mae cymhellion ariannol yn fwy effeithiol pan gânt eu hintegreiddio ag ymyriadau eraill i gynyddu cyfranogiad.

**Dewisiadau ar gyfer datblygu pellach:**

- Monitro: Monitro dysgwyr sydd wedi cael cymorth ariannol i ddeall canlyniadau tymor hwy. Byddai cysylltu setiau data gweinyddol yn darparu cyfleoedd ar gyfer dadansoddiad hydredol.
- Dylunio polisi: Ni ddylai rhaglenni yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad gymhwyso cymhellion ariannol ar eu pen eu hunain, ond eu cyfuno ag ymyriadau eraill, megis digwyddiadau gwybodaeth am fynychu addysg bellach ac addysg uwch, a chymorth mentora i reoli materion sy'n codi. Dylid sefydlu fframweithiau monitro a gwerthuso yn ystod y broses o ddylunio polisïau er mwyn deall effeithiau gwahanol linynnau o fewn rhaglenni.

### Tystiolaeth y DU

Mae cymorth ariannol wedi bod yn ymyriad sydd wedi'i anelu at gynyddu cyfranogiad mewn addysg bellach ac addysg uwch yn y DU, ac yn rhyngwladol ar gyfer darpar ddysgwyr.

Canfu astudiaeth a archwiliodd effaith cymorth ariannol ar gadw dysgwyr mewn prifysgol yn y DU fod ysgoloriaethau wedi gwella cyfraddau cadw yn sylweddol, yn enwedig i ddysgwyr o aelwydydd incwm isel a chanolig (Moores a Burgess, , 2022). Hefyd, ni effeithiodd gwerth yr ysgoloriaeth (yn amrywio o £500 i £3,000) ar y cyfraddau rhoi gorau i addysg uwch. Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at bwysigrwydd targedu cymorth ariannol at y rhai sydd fwyaf mewn

angen er mwynhau ei effeithiolrwydd. Edrychodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD, 2019) ar effaith cymorth ariannol ar draws gwledydd y sefydliad, gan ganfod bod cymorth ymlaen llaw (grantiau) a benthyciadau sy'n amodol ar incwm yn cael effeithiau cadarnhaol ar gofrestru, yn enwedig ar gyfer dysgwyr incwm isel.

Fodd bynnag, mae rhai pobl ifanc yn credu nad yw cael cymhwyster addysg bellach o reidrwydd yn gatalydd sy'n llunio eu canlyniadau o ran cyflogaeth (Tomlinson, 2008). Mae hyn oherwydd bod y farchnad lafur i raddedigion yn cael ei gweld fel un orlawn a chystadleuol iawn, sy'n lleihau gwerth canfyddedig cymwysterau academaidd yn unig. Mae myfyrwyr yn credu bod angen ategu cymwysterau academaidd gyda sgiliau a phrofiadau eraill, megis interniaethau, gweithgareddau allgyrsiol a rhwydweithio, er mwyn tynnu sylw cyflogwyr. Yn ogystal, mae cyflogwyr yn chwilio fwyfwy am gyfuniad o gymwysterau a phrofiad ymarferol, gan ei gwneud yn hanfodol i raddedigion ddangos mwy na chyflawniadau academaidd yn unig. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod canfyddiad gan rai pobl ifanc bod gwerth gradd wedi gostwng dros amser, gan ei gwneud yn llai o warant ar gyfer sicrhau cyflogaeth ddymunol.

Mae adroddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2022) yn tynnu sylw at y ffaith bod yr amrywiad yng nghost byw ledled y DU yn effeithio ar yr elw ariannol o fynychu gwahanol brifysgolion gan nad yw elw economaidd o gael gradd mor ystyrlon mewn ardaloedd lle mae costau byw yn uwch. Er enghraifft, er bod Llundain yn cynnig llawer o gyfleoedd swyddi i raddedigion, mae costau byw uchel yn effeithio'n sylweddol ar elw ariannol addysg uwch. Mae gan Lundain a de-ddwyrain Lloegr gostau byw llawer uwch o'u cymharu â rhanbarthau eraill yn y DU. Mae hyn yn cynnwys tai, cludiant, a threuliau dyddiol eraill. Gall graddedigion sy'n gweithio yn Llundain ennill cyflogau uwch, ond efallai na fydd eu hincwm gwario (incwm ar ôl costau byw) yn sylweddol uwch na graddedigion mewn rhanbarthau eraill â chostau byw is. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith y gall graddedigion o brifysgolion mewn rhanbarthau â chostau byw is, fel gogledd-orllewin Lloegr, gael safon byw debyg neu well er gwaethaf ennill cyflogau is.

I ddysgwyr sy'n byw yng Nghymru, mae grantiau ariannol ar gael i helpu i gynyddu cyfranogiad mewn addysg bellach ac addysg uwch.

- I ddysgwyr addysg uwch, cynigir grantiau cynhaliaeth a benthyciadau, ac mae israddedigion llawn amser newydd cymwys yn cael grant o £1,000, o leiaf, y flwyddyn (Llywodraeth Cymru, 2025).

- Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad) yn darparu cymorth ariannol i bobl ifanc 16–18 oed sydd am barhau â'u haddysg ar ôl oedran ymadael â'r ysgol. Gall dysgwyr cymwys gael £40 yr wythnos, sy'n helpu i leihau rhwystrau ariannol i addysg barhaus. Mae'r adolygiad o'r LCA yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2024) yn nodi llawer o fylchau a meysydd i'w gwella. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg data cynhwysfawr ar effaith hirdymor yr LCA ar ddeilliannau addysgol a gyrfaol dysgwyr. Mae angen mwy o astudiaethau hydredol i ddeall a ydyw'r LCA yn dylanwadu ar ddilyniant dysgwyr i addysg uwch a chyflogaeth. Mae'r adroddiad yn awgrymu y gellid gwella targedu'r LCA a bod angen gwell cyfliniad â systemau cymorth ariannol eraill i sicrhau bod y dysgwyr sydd fwyaf dan anfantais yn cael cymorth digonol. Mae'r adroddiad yn cyflwyno tystiolaeth ynghylch yr effaith ar y rhai nad ydynt yn cael yr LCA sydd ychydig uwchlaw'r trothwy ar gyfer bod yn gymwys ar ei gyfer: mae arolygon a gynhaliwyd gyda myfyrwyr yn dangos bod y rhai nad ydynt yn cael yr LCA yn fwy tebygol o roi gwybod am anawsterau ariannol sy'n effeithio ar eu gallu i barhau mewn addysg. Canfu'r adroddiad fod y sawl sy'n cael yr LCA yn fwy tebygol o gofrestru mewn addysg bellach (ysgol neu sefydliad addysg bellach) yn y mis Medi yn dilyn eu blwyddyn 11 na'r rhai nad oedd yn ei gael. Roedd y rhai nad oedd yn cael y lwfans yn fwy tebygol o gofrestru ar ôl peth amser i ffwrdd o addysg. Mae cyfweliadau â myfyrwyr ac addysgwyr yn datgelu bod angen yn aml i'r rhai nad ydynt yn cael y lwfans weithio oriau hirach mewn gwaith rhan-amser i gynnal eu hunain, a all darfu ar eu hastudiaethau. Hefyd, mae rhai rhanddeiliaid yn awgrymu bod angen system yn ôl disgresiwn yn seiliedig ar amgylchiadau unigol (yn gysylltiedig â'r lwfans yn ddibynnol ar bresenoldeb) ac nad yw rôl ymgysylltu â rhieni a'r gymuned o ran effeithiolrwydd yr LCA yn cael ei harchwilio'n drylwyr.

- Mae Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Cyllid Myfyrwyr Cymru, dim dyddiad) ar gael i ddysgwyr dros 19 oed o deuluoedd incwm isel i helpu i dalu ffioedd dysgu a chostau byw, gan wneud addysg bellach yn fwy hygyrch. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr fod mewn ysgol neu goleg sy'n cymryd rhan, arwain at ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol, hyd at a chan gynnwys cymwysterau Lefel 3.

- Cynigir y Gronfa Ariannol Wrth Gefn (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad) i ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed sydd mewn anhawster ariannol ac mewn perygl o ymadael â'u haddysg. Mae'n darparu cymorth ariannol ychwanegol i'w helpu i barhau mewn

addysg. Caiff y gronfa ei gweinyddu gan golegau addysg bellach yng Nghymru yn ôl disgresiwn.

- Mae cymorth ariannol ar gael ar gyfer cludiant a gofal plant, sy'n helpu dysgwyr i reoli'r treuliau ychwanegol sy'n gysylltiedig â mynychu addysg bellach. Cynigir hyn i bobl dros 16 oed sy'n astudio yn eu chweched dosbarth lleol ac yn teithio pellter penodol i gyrraedd yno, pobl ifanc 16–19 oed sy'n astudio'n llawn amser mewn coleg addysg bellach, neu bobl ifanc 19 oed neu hŷn sy'n astudio'n rhan-amser.

**Tystiolaeth ryngwladol**

Yn 2020, comisiynodd Transforming Access and Student Outcomes (TASO) astudiaeth o effaith ymyriadau ar gyfer ehangu mynediad i addysg uwch (Y Sefydliad Polisi Addysg, a TASO, 2020). Un rhan o'r astudiaeth oedd adolygiad llenyddiaeth ryngwladol a oedd yn edrych ar gymorth ariannol (grantiau, bwrsariaethau, ysgoloriaethau, a hepgor ffioedd) a gynigir i ddarpar ddysgwyr addysg uwch, i weld a ydyw cymorth ariannol yn dylanwadu ar gost wirioneddol ymgeisio a/neu gymryd rhan mewn addysg uwch. Adolygwyd tystiolaeth o wyth astudiaeth ymchwil achosol a chwe adolygiad llenyddiaeth. Defnyddiodd yr holl astudiaethau dechnegau arbrofol neu led-arbrofol i asesu effaith, gyda'r rhan fwyaf o'r ymchwil yn dod o'r Unol Daleithiau. Adolygodd yr astudiaeth hefyd dystiolaeth o'r DU a oedd ar gael ers 2012 pan gyflwynodd Llywodraeth y DU ddiwygiadau i gyllid myfyrwyr ochr yn ochr â thystiolaeth ryngwladol o'r 10 mlynedd diwethaf. Tynnodd yr adolygiad sylw at y ffaith bod angen mwy o dystiolaeth ar effaith cymorth ariannol, yn y DU yn benodol. Dangosodd yr adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol y gallai cymorth ariannol gael effaith gadarnhaol ar gyfraddau cadw pobl ifanc mewn addysg / cwblhau addysg uwch. Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth i wneud honiadau ynghylch pa fathau o gymorth ariannol (bwrsariaethau / grantiau / hepgor ffioedd / ysgoloriaethau) sydd fwyaf effeithiol. Mae yna gwestiynau hefyd ynghylch y trothwy y mae cymorth ariannol yn effeithiol ar ei ôl, wrth gynyddu cofrestru mewn addysg uwch oherwydd ei fod yn cwmpasu cyfran sylweddol o'r angen ariannol heb ei ddiwallu (y bwlch rhwng cost addysg uwch a'r holl adnoddau dysgwyr nad oes angen eu had-dalu) (Fframwaith Dangosyddion Addysg-i'r-Gweithlu, 2025). Yn ogystal, amlygodd yr adroddiad fod cymorth ariannol fwyaf effeithiol pan mae'n hawdd ei ddeall ac yn hawdd i wneud cais amdano, a lle gwneir ymdrechion i godi ymwybyddiaeth ymhlith yr unigolion y bydd y cymorth o fudd iddynt, o bosibl. Mae ymyriadau sy'n cyfuno cymorth ariannol â mesurau cymorth eraill, megis mentora a chwnsela, yn tueddu i fod yn fwy effeithiol. Nid yn

unig y mae’r rhaglenni hyn yn darparu rhyddhad ariannol, ond maent hefyd yn helpu dysgwyr i lywio drwy’r system addysg uwch.

Mae astudiaeth yn ymwneud â’r rhaglen ASAP (Kelchen, 2022) yn yr Unol Daleithiau, a ddisgrifir yn fanwl yn yr adran ar dderbyniadau cyd-destunol, yn darparu cymorth cynhwysfawr gan gynnwys cymorth ariannol, ac y mae wedi gwella cyfraddau graddio ymhlith cyfranogwyr yn sylweddol. Mae rhaglen Bottom Line, a gyflwynir yn yr Unol Daleithiau (The Bottom Line, 2025), yn darparu cymorth personol (gan gynnwys cymorth ariannol) i ddysgwyr incwm isel a dysgwyr cenhedlaeth gyntaf. Mae wedi dangos effeithiau cadarnhaol ar ddyfalbarhad dysgwyr a chyfraddau graddio.

## Mentora a chymorth gan gymheiriaid

---

**Maes polisi:** Mentora a chymorth gan gymheiriaid

**Lleoliadau:** Y DU, Unol Daleithiau America, Awstralia, Canada, a De Affrica

**Y sector y canolbwyntir arni:** Addysg uwch ac addysg bellach

**Cryfder y dystiolaeth:** Tystiolaeth dda a chadarn bod mentora yn cael effaith gadarnhaol ar gynnal cyfranogiad mewn addysg uwch ac addysg bellach. Mae tystiolaeth achosol yn gyfyngedig.

**Crynodeb o'r canfyddiadau:**

- Cyfnod amser: Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y ffaith bod ymyriadau hyfforddi academaidd effeithiol fel arfer yn para o leiaf 12 awr dros bedair wythnos.
- Modelau rôl: Gall modelau rôl y gellir uniaethu â nhw roi hwb sylweddol i hyder, dyheadau, a dealltwriaeth dysgwyr o addysg uwch, yn enwedig pan fydd gan y mentoriaid gefndiroedd tebyg i'r dysgwyr y maen nhw'n eu cefnogi.
- Atal rhoi'r gorau i addysg bellach: Mae hyfforddiant academaidd a chymorth targedig i ddysgwyr sy'n ei chael yn anodd yn hanfodol wrth eu hatal rhag rhoi'r gorau i addysg bellach.
- Rhagolygon gyrfa: Mae'r cymorth gan fentoriaid a chymheiriaid yn aml yn arwain at ragolygon gyrfa gwell; mae prentisiaid sy'n cael cymorth yn fwy tebygol o symud ymlaen yn eu meysydd dewisol, gan eu bod wedi'u paratoi'n well ar gyfer heriau eu proffesiynau.

**Opsiwn ar gyfer datblygiad pellach:**

Bylchau o ran tystiolaeth: Byddai canfod effaith achosol mentora a chymorth gan gymheiriaid ar gofrestru ac effeithiau tymor hwy yn darparu tystiolaeth fwy cadarn ar gyfer yr ymyriad.

---

Yn ôl TASO (Transforming Access and Student Outcomes in Higher Education, 2020) bwriedir i ymyriadau yn ymwneud â mentora, cwnsela a modelau rôl annog dysgwyr i weld addysg uwch fel lle y maen nhw'n perthyn iddo, a'u bod yn cael eu hanelu at gynyddu

dyheadau a hyder y dysgwyr. Defnyddir mentora gan gymheiriaid yn y DU ac yn rhyngwladol.

Yn 2020, adolygodd TASO dystiolaeth (Y Sefydliad Polisi Addysg, a TASO, 2020) ar effaith ymyriadau a anelir at ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch, ac roedd yr astudiaethau a oedd yn canolbwyntio ar fentora a modelau rôl yn bennaf yn dod o'r DU ac UDA. Canfu'r adolygiad y gall mentoriaid sy'n gweithredu fel modelau rôl y gellir cysylltu â nhw roi hwb sylweddol i hyder, dyheadau, a dealltwriaeth dysgwyr o addysg uwch, yn enwedig pan fydd gan y mentoriaid gefndiroedd tebyg i'r dysgwyr y maen nhw'n eu cefnogi. Mae rhaglenni mentora effeithiol wedi'u teilwra i anghenion penodol dysgwyr, ac wedi'u hintegreiddio â mesurau cymorth eraill, megis cyngor gyrfaoedd a chymorth ariannol. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod cychwyn mentora yn gynnar, cyn i ddysgwyr ddechrau mewn addysg uwch, yn cael effaith fwy sylweddol ar eu taith addysgol. Mae tystiolaeth o'r DU yn cynnwys y Rhaglen Allgymorth Cydweithredol Genedlaethol, a drafodwyd yn flaenorol, pan fo mentora yn elfen allweddol a ddefnyddir i helpu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gael mynediad at addysg uwch.

### Tystiolaeth y DU

Mae rhaglen Llwybrau i'r Gyfraith Ymddiriedolaeth Sutton (Ymddiriedolaeth Sutton, dim dyddiad) yn darparu mentora, lleoliadau gwaith, ac ymweliadau â phrifysgolion i gynorthwyo dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais sy'n anelu at astudio'r gyfraith. Fe'i cyflwynir dros ddwy flynedd academaidd, ym mlynyddoedd 12 a 13. Mae'n cynnwys cymysgedd o leoliadau profiad gwaith, gweithdai sgiliau, sesiynau gwybodaeth, a digwyddiadau rhwydweithio. Mae data o'r Traciwr Mynediad i Addysg Uwch (Ymddiriedolaeth Sutton, 2024) yn dangos bod dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn fwy tebygol o fynychu prifysgolion ymchwil-ddwys ac astudio'r gyfraith o'u cymharu â'r rhai a wnaeth gais ond na chafodd le. Dangoswyd hefyd bod y rhaglen yn rhoi hwb i hyder dysgwyr ac yn darparu cysylltiadau a mewnwelediadau gwerthfawr i'r proffesiwn cyfreithiol, sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod rhaglen Llwybrau i'r Gyfraith Ymddiriedolaeth Sutton yn ddetholus. Mae'r rhaglen yn targedu myfyrwyr uchelgeisiol o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa yn y gyfraith. Rhaid i ymgeiswyr fodloni meini prawf cymhwysedd penodol, gan gynnwys perfformiad academaidd a mynychu ysgol a ariennir gan y wladwriaeth. O ystyried y detholiad hwn, mae'n bosibl y bydd y grŵp rheoli (y rhai a wnaeth gais ond na chawsant le) yn wahanol o ran gallu academaidd neu ffactorau eraill, a allai gyflwyno rhagfarn.

Yn y DU, mae rhaglenni mentora cymheiriaid a dysgu â chymorth cymheiriaid wedi'u cynllunio i wella dysgu a llwyddiant trwy ryngweithio cydweithredol a chefnogol rhwng cymheiriaid. Mae dull dysgu â chymorth cymheiriaid yn canolbwyntio ar y dysgwr ac yn anelu at gynyddu hyder academaidd a theimlad o berthyn trwy ddysgu gan gymheiriaid. Mae'r rhaglenni'n canolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth ac addysg cymeriad er mwyn cymeradwyo perfformiad academaidd.  Archwiliodd adroddiad y defnydd o'r dull dysgu â chymorth cymheiriaid a thrawsieithu (siaradwyr amlieithog yn newid rhwng ieithoedd ac yn eu cymysgu i greu ystyr, cyfathrebu, a dysgu) i gefnogi pontio dysgwyr i addysg uwch, a chanfu fod perfformiad academaidd a llesiant wedi gwella'n sylweddol, yn enwedig i ddysgwyr amlieithog (Meletiadou, 2022). Ar ben hynny, darparodd adroddiad (Emily Stapley, 2022) dystiolaeth sylfaenol ar gyfer effaith gadarnhaol mentora gan gymheiriaid ar wahanol ganlyniadau i fentoriaid a mentoreion mewn lleoliad uwchradd yn y DU. Mae'r papur yn awgrymu y gall mentora gan gymheiriaid wella ymgysylltiad a llwyddiant academaidd. Mae'r astudiaethau hyn gyda'i gilydd yn dangos y gall mentora gan gymheiriaid a'r dull dysgu â chymorth cymheiriaid chwarae rhan sylweddol wrth gefnogi teithiau academaidd dysgwyr, yn enwedig wrth gynyddu cyfranogiad a llwyddiant mewn addysg uwch.

Adroddiad yn canolbwyntio ar brofiadau myfyrwyr israddedig yn eu hail a'u trydedd flwyddyn mewn sefydliad addysg uwch bach yn y DU fel arweinwyr dysgu â chymorth cymheiriaid. Hwylusodd myfyrwyr sesiynau astudio grŵp, a gwnaethant ddarparu cymorth mentora i fyfyrwyr blwyddyn is (Bailey, 2021). Adroddodd yr ymchwil, a gynhaliwyd drwy gyfweliadau manwl a chasglu data gweledol, ar dair prif thema: cysylltedd cymdeithasol, hunanddatblygiad, a hunan-effeithiolrwydd. Tynnodd yr astudiaeth sylw at y ffaith bod arweinwyr dysgu â chymorth cymheiriaid wedi nodi bod cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu â chymorth cymheiriaid wedi eu helpu i feithrin cydberthnasau ystyrlon â chymheiriaid a staff academaidd, gan wella eu profiad prifysgol yn gyffredinol. Cyfrannodd rôl arweinwyr dysgu â chymorth cymheiriaid yn sylweddol at dwf personol, yn enwedig i'r arweinwyr dysgu â chymorth cymheiriaid. Datblygodd y myfyrwyr sgiliau pwysig, megis cyfathrebu, arweinyddiaeth, a meddwl beirniadol. Gwnaethon nhw hefyd ennill hyder a dealltwriaeth well o'u galluoedd academaidd eu hunain. Chwaraeodd adborth cadarnhaol ac anogaeth gan gymheiriaid a mentoriaid rôl hanfodol wrth hybu eu hunan-effeithiolrwydd, a daethpwyd yn fwy empathig a deallus o'r heriau yr oedd eu cymheiriaid yn eu hwynebu. Yn ei dro, gwnaeth hynny wella eu heffeithiolrwydd mentora.

Archwiliodd hap-dreial dan reolaeth croesi yn Ne-orllewin Lloegr effaith modelau rôl a mentora ar geisiadau prifysgolion ymhlith dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais (Sanders, ac eraill, 2018). Roedd y treial yn cynnwys dysgwyr o ysgolion a cholegau lleol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai o gefndiroedd tlotach. Ymwelodd dysgwyr prifysgol cyfredol â'r ysgolion a'r colegau hyn i ddarparu gwybodaeth gywir am gostau a buddion addysg prifysgol, ac i gynnal sgyrsiau ysbrydoledig. Casglwyd data ynghylch canlyniadau ceisiadau prifysgol y dysgwyr. Mae'r canfyddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod yr ymyriad wedi cynyddu'r tebygolrwydd y byddai dysgwyr yn gwneud cais i brifysgolion dethol yn sylweddol. Roedd yr effeithiau'n fwy amlwg i ddysgwyr sy'n mynychu colegau addysg bellach, sydd fel arfer yn gwasanaethu dysgwyr sydd dan fwy o anfantais. Roedd gan yr ymyriad effeithiau gwannach ar ganlyniadau eraill, megis perfformiad academaidd cyffredinol. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y gall modelau rôl a mentora annog dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais yn effeithiol i wneud cais i brifysgolion dethol, yn enwedig y rhai mewn colegau addysg bellach.

### Tystiolaeth ryngwladol

Mae rhaglenni sy'n paru dysgwyr â mentoriaid, megis rhaglen Big Brothers Big Sisters (BBBS) yn yr Unol Daleithiau yn helpu dysgwyr i feithrin hyder a llywio'r broses ymgeisio i goleg, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn cofrestru gyda choleg (Evidence for ESSA, 2025). Mae'r rhaglen BBBS yn enghraifft sydd wedi'i dogfennu'n dda o fenter fentora lwyddiannus sy'n paru dysgwyr â mentoriaid. Canfu astudiaeth genedlaethol ar raddfa fawr welliannau sylweddol mewn perfformiad academaidd ac ymgysylltiad ymhlith cyfranogwyr y rhaglen BBBS. Adroddodd yr un astudiaeth ostyngiadau mewn ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, a gwelliannau mewn sgiliau perthynas rhyngbersonol. Mae rhaglenni BBBS yn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol gwell, sy'n hanfodol ar gyfer eu datblygiad cyffredinol. Er y gall rhai effeithiau leihau dros amser, gall presenoldeb mentor gael effeithiau cadarnhaol parhaol ar fywydau dysgwyr, gan gynnwys cydberthnasau gwell a mwy o hunanhyder.

Gwnaeth adroddiad archwilio effaith rhaglenni mentora gan gymheiriaid ar ddysgwyr coleg blwyddyn gyntaf yn yr Unol Daleithiau (Graham, Wayne, a Persutte-Man, 2022). Wedi'i gynnal fel astudiaeth dulliau cymysg, mae'n asesu rhaglen fentora gan gymheiriaid arweinwyr dosbarth. Canfu'r astudiaeth fod dysgwyr â mentoriaid sy'n gymheiriaid wedi dangos cyfradd dyfalbarhad hyd at 10% yn uwch, a chynnydd o 0.4 pwynt gradd o ran cyfartaledd pwynt gradd yn y tymor cyntaf, o'u cymharu â'r rhai nad oedd ganddynt fentor. Mae cyfartaledd pwynt gradd yn ffordd safonol o fesur cyflawniad academaidd yn yr Unol Daleithiau a

gwledydd eraill. Cyfrifir y cyfartaledd pwynt gradd trwy gyfartaleddu'r graddau y mae myfyriwr yn eu cael yn eu cyrsiau, fel arfer ar raddfa o 0 i 4.0, lle mae 4.0 yn cynrychioli 'A' neu berfformiad rhagorol.

Roedd mentora gan gymheiriaid yn cydberthyn â mwy o fwynhad o'r profiad prifysgol, ymdeimlad cryfach o berthyn, a chyfranogiad uwch ar y campws. Casglodd yr astudiaeth ddata ansoddol hefyd, gan gadarnhau effeithiau cadarnhaol mentora gan gymheiriad ar ymaddasu cymdeithasol ac academaidd dysgwyr. Mae'r ymchwil yn tanlinellu pwysigrwydd rhaglenni mentora strwythuredig gan gymheiriaid wrth gynorthwyo cyfnodau pontio dysgwyr a gwella canlyniadau cyffredinol.

Archwiliodd adolygiad systematig effeithiolrwydd ymyriadau hyfforddi academaidd ar lwyddiant dysgwyr mewn addysg uwch (Campbell, a Mogashana, 2024). Cafodd 25 o erthyglau a adolygwyd gan gymheiriaid, ac a gyhoeddwyd rhwng 2010 a 2023, eu cynnwys, gydag ymchwil o'r Unol Daleithiau, y DU, Awstralia, Canada a De Affrica. Dadansoddwyd nodweddion ymyriadau hyfforddi academaidd effeithiol, gan gynnwys fformat hyfforddi (unigol neu grŵp), modd (wyneb yn wyneb neu o bell), pynciau, cefndir yr hyfforddwr, hyd, ac amlder. Un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad yw bod ymyriadau hyfforddi academaidd effeithiol fel arfer yn para o leiaf 12 awr dros bedair wythnos. Canfuwyd bod hyfforddi wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol na hyfforddi o bell. Roedd hyfforddwyr proffesiynol yn fwy effeithiol na hyfforddwyr sy'n gymheiriaid. Tynnodd yr adolygiad sylw at welliannau o ran cadw dysgwyr, llwyddiant academaidd, a llesiant cyffredinol fel canlyniadau allweddol ymyriadau hyfforddi effeithiol. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y gall hyfforddiant academaidd strwythuredig, proffesiynol, ac wyneb yn wyneb wella llwyddiant dysgwyr mewn addysg uwch yn sylweddol.

Dadansoddiad ansoddol drwy archwilio system prentisiaethau'r Almaen a'i heffeithiolrwydd mewn perthynas ag addysg alwedigaethol (Oh, 2024). Archwiliodd yr ymchwil adroddiadau, astudiaethau academaidd, ac enghreifftiau go iawn o fodel prentisiaeth yr Almaen, gan ganolbwyntio ar strwythur, gweithrediad, a chanlyniadau'r system brentisiaeth. Mae mentora a chymorth gan gymheiriaid yn rhan annatod o'r system ddeuol (system hyfforddiant galwedigaethol ddeuol, sy'n cyfuno dysgu damcaniaethol â phrofiad ymarferol), gan roi profiad ymarferol ac arweiniad i brentisiaid gan gydweithwyr mwy profiadol. Mae hyn yn helpu i bontio'r bwlch rhwng gwybodaeth ddamcaniaethol a chymhwyso ymarferol. Mae cael mentoriaid a systemau cymorth gan gymheiriaid yn cynyddu cymhelliant ac ymgysylltiad prentisiaid. Maen nhw'n teimlo eu bod yn cael mwy o gymorth a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy, a all arwain at gyfraddau cadw uwch a pherfformiad gwell. Mae mentoriaid yn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu sgiliau technegol a meddal, sy'n eu

helpu i ddod yn fwy cymwys a hyderus yn eu rolau. Mae’r cymorth gan fentoriaid a chymheiriaid yn aml yn arwain at ragolygon gwell o ran gyrfa, ac mae prentisiaid sy’n cael cymorth yn fwy tebygol o symud ymlaen yn eu meysydd dewisol, gan eu bod wedi’u paratoi’n well ar gyfer heriau eu proffesiynau.

## Cymorth iechyd meddwl a llesiant

**Maes polisi:** Cymorth iechyd meddwl a llesiant

**Lleoliadau:** Cymru, Lloegr, yr Unol Daleithiau America, Awstralia

**Y sector y canolbwyntir arni:** Addysg uwch ac addysg bellach

**Cryfder y dystiolaeth:** Tystiolaeth dda bod galw am gymorth iechyd meddwl a llesiant mewn addysg uwch ac addysg bellach, ond mae diffyg tystiolaeth gadarn sy’n nodi effaith mathau o gymorth iechyd meddwl ar gynyddu cyfranogiad myfyrwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach.

**Crynodeb o’r canfyddiadau:**

- Tystiolaeth o effaith: Canfuwyd bod therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT) a chwnsela yn effeithiol wrth leihau symptomau iselder a gorbryder ymhlith myfyrwyr, a dangosodd arferion megis myfyrdod ac ioga effeithiau cadarnhaol ar leihau straen a gwella llesiant cyffredinol.
- Grwpiau cymorth dan arweiniad cymheiriaid: Y math mwyaf cyffredin o ymyriad sy’n targedu dysgwyr ag anawsterau iechyd meddwl; fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth sylweddol ar gyfer effeithiolrwydd cymorth gan gymheiriaid.
- Cymorth iechyd meddwl hygyrch: Gall wella cadw dysgwyr yn sylweddol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau iechyd meddwl mewn lleoliadau addysg uwch.

**Dewisiadau ar gyfer datblygu pellach:**

- Monitro a gwerthuso: Gellid rhoi prosesau casglu data cadarn ar waith i nodi a ydyw mynediad at y math hwn o gymorth wedi arwain at gadw mwy o ddysgwyr a chyflawniad academaidd. Hefyd, gellid integreiddio datblygu systemau adborth cadarn i wella’r gwasanaeth yn barhaus ar sail profiadau a chanlyniadau dysgwyr.
- Cymorth iechyd meddwl hygyrch: Gall darparu cymorth iechyd meddwl hygyrch gadw nifer sylweddol fwy o ddysgwyr, gan dynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau iechyd meddwl mewn lleoliadau addysg uwch.

Dangoswyd bod iechyd meddwl gwael yn rhwystr i bobl ifanc o ran cyflawniad addysgol a chyfranogiad mewn addysg drydyddol. Mae dadansoddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn

dangos bod problemau iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc ar gynnydd, ac mae cyfraddau argyfyngau[3] iechyd meddwl yn uwch, yn enwedig ymhlith merched yn eu harddegau a menywod ifanc (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022). Hefyd, mae plant sy'n byw gyda rhiant sydd ag iselder yn fwy tebygol o ddatblygu iselder ac wynebu anawsterau wrth gyflawni cerrig milltir sy'n ymwneud ag addysg (Brophy, Todd, Rahman, Kennedy, a Rice, 2021). Mae adroddiad a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg yn y Senedd yn pwysleisio'r angen am gymorth iechyd meddwl yn gyson mewn lleoliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae hefyd yn cydnabod y gall y newid i addysg uwch arwain at waethygu problemau iechyd meddwl presennol, yn ogystal ag angen am gymorth iechyd meddwl ar unwaith (Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, 2023).

Mae'r adroddiad 'Profiadau dysgwyr mewn addysg ôl-16: Ebrill i Mai 2024' (Llywodraeth Cymru, 2024) yn cyflwyno canfyddiadau arolwg i brofiadau dysgwyr mewn addysg ôl-16. Canolbwyntiodd yr ymchwil ar wella dealltwriaeth o brofiadau diweddar dysgwyr mewn addysg bellach sydd rhwng 16 a 24 oed. Tynnodd y canfyddiadau sylw at gyfran uchel o ddysgwyr addysg bellach yn nodi bod ganddynt iechyd meddwl a llesiant emosiynol gwael. Adroddodd dysgwyr am anawsterau yn ymwneud â gorbryder, iselder, a dirywiad cyffredinol mewn iechyd meddwl. Er bod dysgwyr yn teimlo bod darparwyr yn ceisio diwallu eu hanghenion cymorth iechyd meddwl a llesiant, mae galw sylweddol heb ei ddiwallu o hyd sy'n gofyn am hyfforddiant ac adnoddau.

## Tystiolaeth y DU

Mae sawl ymyriad effeithiol yn y DU ac yn rhyngwladol sydd wedi'u rhoi ar waith i gynnal iechyd meddwl a llesiant dysgwyr mewn addysg uwch.

Mae'r adroddiad 'What works to tackle mental health inequalities in higher education?' (Robertson A., Mulcahy E., a Baars S., o'r Ganolfan Addysg ac Ieuenctid, 2022) yn archwilio ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl myfyrwyr ac yn gwerthuso amrywiol ymyriadau sydd â'r nod o wella canlyniadau iechyd meddwl i fyfyrwyr. Mae'r adroddiad yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth bresennol i asesu effeithiolrwydd gwahanol ymyriadau iechyd meddwl. Cymerodd rhanddeiliaid ran mewn arolygon a thrafodaethau bwrdd crwn. Roedd yr ymgynghoriad wedi'i strwythuro o amgylch gwahanol fathau o ddarparwyr addysg uwch, gan gynnwys colegau addysg bellach, prifysgolion y Grŵp Russell, prifysgolion ôl-1992 / metropolitan, a darparwyr bach / arbenigol. Cynhaliwyd cyfweliadau ychwanegol gyda

Diffinnir argyfwng iechyd meddwl gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel profi trallod emosiynol neu orbryder sylweddol, methu ymdopi â bywyd bob dydd, meddwl am hunanladdiad neu hunan-niweidio, neu weld rhithiau neu glywed lleisiau.[3] Argyfwng Iechyd Meddwl – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

myfyrwyr a rhanddeiliaid na allai fod yn bresennol yn y trafodaethau bwrdd crwn. Un rhybudd ynglŷn â'r fethodoleg yw bod yr adroddiad yn dibynnu'n fawr ar astudiaethau trawsdoriadol, sy'n rhoi cipolwg mewn amser ond nad ydynt yn cipio effeithiau hirdymor ymyriadau. Byddai astudiaethau hydredol yn cynnig tystiolaeth fwy cadarn ar effaith barhaus yr ymyriadau hyn.

Tynnodd yr adroddiad sylw at y myfyrwyr hynny o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel a chefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sydd mewn mwy o berygl o iechyd meddwl gwael. Mae'r adroddiad yn adolygu sawl math o ymyriadau, gan gynnwys rhaglenni seicolegol, ymyriadau sy'n seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar, rhaglenni hamdden, rhaglenni sy'n seiliedig ar dechnoleg, a mentora gan gymheiriaid. Mae'n nodi bod CBT a chwnsela yn effeithiol wrth leihau symptomau iselder a gorbryder ymhlith myfyrwyr, a dangosodd arferion megis myfyrdod ac ioga effeithiau cadarnhaol ar leihau straen a gwella llesiant cyffredinol. Roedd gweithgareddau corfforol ac ymgysylltiad cymdeithasol yn cyfrannu trwy ddosbarthiadau chwaraeon ac ymarfer corff at ganlyniadau iechyd meddwl gwell. Hefyd, roedd apiau iechyd meddwl a phlatfformau ar-lein yn darparu cymorth hygyrch, ac yn effeithiol wrth gyrraedd poblogaeth ehangach o fyfyrwyr. Amlygodd yr adroddiad hefyd fod cyfuno gwahanol fathau o ymyriadau (e.e. rhaglenni seicolegol, ymwybyddiaeth ofalgar, a hamdden) yn fwy effeithiol nag ymyriadau unigol ar eu pen eu hunain. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at y ffaith bod y prif rwystrau i fyfyrwyr gael mynediad at gymorth iechyd meddwl yn ymwneud â'r stigma ynghylch iechyd meddwl, diffyg ymwybyddiaeth am yr adnoddau sydd ar gael, a chyllid annigonol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae ymyriadau yn y DU yn cynnwys:

- Rhaglen Meddyliau Myfyrwyr (Undeb Myfyrwyr Caerdydd, dim dyddiad) (sydd â'r nod o hyrwyddo iechyd meddwl mewn sefydliadau addysg uwch);
- Fframwaith Stepchange y DU (Universities UK, 2023) (wedi'i anelu at brifysgolion i weithredu dull sefydliad cyfan o ymdrin ag iechyd meddwl o'r cyfnod derbyn i'r cyfnod graddio);
- Gwasanaeth Cyswllt Iechyd Meddwl y Prifysgolion (MHULS) (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025) (gyda'r nod o sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad at ofal iechyd meddwl cynhwysfawr);
- hyfforddi hyrwyddwyr iechyd meddwl (Prifysgol De Cymru, 2025) (yn cynnwys staff a dysgwyr);
- gwasanaethau a chwnsela iechyd meddwl ar-lein a rhagweithiol, rhaglenni cymorth gan gymheiriaid a mentora, ac ymgyrchoedd llythrennedd iechyd meddwl.

O fewn rhanbarth Caerdydd, lansiwyd cynllun arbrofol yr MHULS yn 2022 i ddarparu cymorth i ddysgwyr sefydliadau addysg uwch â phroblemau iechyd meddwl cymedrol i gymhleth. Bu staff iechyd meddwl y GIG yn gweithio gyda'r gwasanaethau llesiant yn y prifysgolion o amgylch ardal Caerdydd i nodi'r dysgwyr hynny y mae arnynt angen cymorth iechyd meddwl. Y gwasanaethau a gynigiwyd oedd asesiadau iechyd meddwl i nodi'r llwybrau gofal mwyaf priodol ar gyfer dysgwyr, cynlluniau diogelwch i reoli eu hiechyd meddwl yn effeithiol, a hwyluso atgyfeiriadau at gymorth mwy perthnasol a phwrpasol. Mae cynrychiolwyr o'r MHULS yn bresennol mewn cyfarfodydd adolygu gyda rhanddeiliaid i fonitro ac addasu cynlluniau cymorth yn ôl yr angen. O ganlyniad i'r cynllun peilot hwn, mae mynediad gwell at gymorth iechyd meddwl i ddysgwyr, gan sicrhau eu bod yn cael gofal amserol a phriodol. Mae dysgwyr wedi nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu deall a'u cynorthwyo'n well trwy eu hymgysylltiad â'r MHULS. Mae'r bartneriaeth rhwng prifysgolion a gwasanaethau'r GIG wedi cryfhau, gan arwain at gymorth mwy cydlynol ar gyfer iechyd meddwl dysgwyr. Er mwyn cynyddu cyfraddau cadw ymhellach o fewn prifysgolion, yn enwedig y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl, dylai prifysgolion eraill ledled Cymru edrych ar weithio gyda staff iechyd meddwl y GIG i gynyddu argaeledd y gwasanaethau. Gallai darparu hyfforddiant ychwanegol i staff prifysgol ac ymarferwyr iechyd meddwl helpu i ymdrin ag ystod ehangach o broblemau iechyd meddwl, yn enwedig i'r dysgwyr hynny sydd ar fin bod ag angen gwasanaeth y GIG. Er mwyn sicrhau bod effaith MHULS yn cael ei gofnodi, gellid rhoi prosesau casglu data cadarn (Senedd Cymru, 2024) ar waith rhwng y GIG a phrifysgolion i nodi a ydyw mynediad at y math hwn o gymorth wedi arwain at gyfraddau uwch o ran cadw dysgwyr a chyflawniad academaidd. Gellid hefyd integreiddio datblygu systemau adborth cadarn i wella'r gwasanaeth yn barhaus ar sail profiadau a chanlyniadau dysgwyr.

Datblygodd yr elusen Meddyliau Myfyrwyr yn y DU y rhaglen Meddyliau Myfyrwyr (2016) i hyrwyddo iechyd meddwl mewn sefydliadau addysg uwch. Un o'u prif raglenni oedd 'Look After Your Mate' (Warren a Byrom, 2016) a ddatblygwyd i nodi'r problemau y mae dysgwyr yn eu hwynebu wrth ddarparu cymorth i ffrindiau ag anawsterau iechyd meddwl, eu hanghenion fel cefnogwyr, y cymorth maen nhw'n ei gael, a'r effaith y mae'r cyfrifoldeb hwn yn ei chael ar eu bywydau. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys arolwg o 79 o ddysgwyr mewn sefydliadau addysg uwch a oedd yn cynnal ffrind ag anawsterau iechyd meddwl. Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith bod angen mwy o wybodaeth ar y ffrindiau hynny sy'n darparu cymorth ynghylch sut i ddarparu cymorth effeithiol a chydbwyso eu cyfrifoldebau, a bod angen gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ac addasiadau academaidd. Datblygodd Meddyliau Myfyrwyr hyfforddiant ar gyfer staff prifysgol a myfyrwyr er mwyn iddynt allu cynnal

gweithdai ‘Gofalwch Am Eich Ffrind’ (Meddyliau Myfyrwyr, 2025) sydd â’r nod o gynyddu eu gwybodaeth, eu hyder a’u sgiliau i rymuso dysgwyr i gefnogi ffrindiau sy’n wynebu anawsterau iechyd meddwl. Bu astudiaeth gan Reis ac eraill (2022) yn ystyried y berthynas rhwng rhaglen hybu iechyd a ddarperir gan gymheiriaid a llesiant dysgwyr o fewn addysg uwch mewn perthynas ag unigolion a oedd yn cymryd rhan mewn digwyddiad Diwrnod Iechyd Meddwl Prifysgol yn Sydney. (Reis, Mortimer, Rutherford, Sperandei, a Saheb, 2022). Mae’r adroddiad yn nodi, am fod pwysau parhaus ar wasanaethau dysgwyr prifysgolion i ddarparu ar gyfer llesiant dysgwyr heb ei ddiwallu gydag adnoddau priodol, gallai rhaglen rhwng cymheiriaid megis rhaglen Iechyd Meddwl a Llesiant a Rhaglen Llysgenhadon Dysgwyr wneud gwahaniaeth wrth gynnal a hyrwyddo iechyd meddwl dysgwyr. Cynhaliodd astudiaeth gan Pointon-Haas ac eraill (2023) adolygiad systematig o ymyriadau cymorth gan gymheiriaid ar gyfer iechyd meddwl a llesiant dysgwyr mewn addysg uwch (Pointon-Haas, ac eraill, 2023). Roedd yr astudiaeth yn awgrymu bod dysgu gan gymheiriaid a mentora gan gymheiriaid wedi cael mwy o ddeilliannau cadarnhaol o ran achosi gorbryder a straen na’r ymyriadau eraill. Ymddengys mai grwpiau cymorth dan arweiniad cyfoedion yw’r math mwyaf llwyddiannus o ymyriad sy’n targedu dysgwyr ag anawsterau iechyd meddwl; fodd bynnag, pwysleisiodd yr adroddiad nad oes digon o dystiolaeth sylweddol ar gyfer effeithiolrwydd cymorth gan gymheiriaid.

Mae ymgorffori cymorth iechyd meddwl ar gyfer dysgwyr prifysgol gan ddefnyddio ymyriadau ar y rhyngrwyd, gan gynnwys apiau ffonau clyfar, wedi’u datblygu i helpu dysgwyr gyda’u hiechyd meddwl, yn enwedig y rhai sydd â symptomau iselder a gorbryder. Defnyddiodd astudiaeth gan Morris ac eraill (2020) hap-dreial dan reolaeth i werthuso effeithiolrwydd ap symudol hunan-dywys, ‘Feel Stress Free’ am chwe wythnos. (McCloud, Jones, Lewis, Bell, a Tsakanikos, 2020). Roedd yr ap yn cynnwys gweithgareddau i hwyluso ymlacio, megis anadlu tawel, myfyrdod ar ffurf ymwybyddiaeth ofalgar, ymlacio’r cyhyrau yn ddwfn, a hunan-hypnosis. Mae yna hefyd ffordd o gadw golwg ar hwyliau a gwybodaeth am herio meddyliau nad yw’r unigolyn am eu cael / meddyliau negyddol, a gêm fach ymlaciol. Dangosodd y canlyniadau fod gan yr ap ‘Feel Stress Free’ effeithiau cadarnhaol ar leihau symptomau iselder a gorbryder tra hefyd yn caniatáu mynediad cyflym at gymorth ar ffurf therapi gwybyddol ymddygiadol. Gan fod yr ymchwil wedi’i chynnal dros gyfnod o chwe wythnos, mae angen ymchwil pellach i ganfod ei effeithiolrwydd y tu hwnt i’r chwe wythnos.

Datblygwyd y fframwaith Stepchange gan Universities UK i roi canllawiau i brifysgolion roi dull strategol ar waith ar gyfer iechyd meddwl a llesiant yn eu sefydliadau (Universities UK, 2023). Mae’r fframwaith, ynghyd â Siarter Iechyd Meddwl y Brifysgol, yn cynnwys dull prifysgol gyfan

o ymdrin ag iechyd meddwl pan fo cymorth iechyd meddwl wedi'i ymgorffori ym mhob agwedd ar fywyd dysgwyr (Hughes a Spanner, 2024). Mae'n pwysleisio cydweithio rhwng prifysgolion a gwasanaethau'r GIG, yr angen am ymyriadau cynnar, ac yn anelu at greu amgylchedd cefnogol sy'n hyrwyddo llesiant. Fel rhan o'r fframwaith, crëwyd offeryn hunanasesu i gynorthwyo prifysgolion. Fodd bynnag, mae diffyg data cadarn i fesur effaith y fframwaith ar brifysgolion a dysgwyr y mae arnynt angen cymorth iechyd meddwl. Yn debyg i'r fframwaith Stepchange, mae gan yr Unol Daleithiau Gampws JED. Mae'n cynnig fframwaith cynhwysfawr ar gyfer cymorth iechyd meddwl, ond mae'n bwrpasol i gyd-destun yr Unol Daleithiau (Campws JED, 2025). Mae Campws JED wedi'i gynllunio i gynnal iechyd emosiynol a llesiant dysgwyr yn y coleg a'r brifysgol. Ei nod yw helpu colegau a phrifysgolion i ddatblygu systemau, rhaglenni a pholisïau cynhwysfawr i wella iechyd meddwl, lleihau camddefnyddio sylweddau, ac atal hunanladdiad ymhlith dysgwyr. Yn ôl adroddiad gwerthuso gan Sefydliad Jed a gyhoeddwyd yn 2024, roedd cyfranogwyr a gwblhaodd raglen Campws JED 25% yn llai tebygol o roi gwybod am ymgais i gyflawni hunanladdiad, 13% yn llai tebygol o roi gwybod am gynllunio i gyflawni hunanladdiad, a 10% yn llai tebygol o roi gwybod am synio am hunanladdiad (Sefydliad Jed, 2024). Mae astudiaeth gan Harris ac eraill (2022) yn tynnu sylw at y ffaith bod prifysgolion a cholegau ledled Talaith Efrog Newydd yn mabwysiadu dull cyfannol o ymdrin ag iechyd meddwl, gan ei integreiddio i wahanol agweddau ar fywyd y campws, gan gynnwys cwricwla academaidd trwy gyrsiau, gwasanaethau i ddysgwyr, a gweithgareddau allgyrsiol (Harris, Maher, & Wentworth, 2022).

### Tystiolaeth ryngwladol

Yn Awstralia, dadansoddodd astudiaeth gan Zając ac eraill (2023) sut y mae cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl prifysgolion yn effeithio ar gyfraddau cadw dysgwyr mewn sefydliadau addysg uwch yn Awstralia. (Zając, Perales, a Tomaszewski, 2023). Gwnaethant gysylltu data gweinyddol ynghylch y boblogaeth lawn o ddysgwyr domestig a oedd yn dechrau cwrs israddedig mewn prifysgol yn Awstralia rhwng 2012 a 2015. Canfuwyd bod gan ddysgwyr a oedd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl prifysgolion gyfradd gadw 14% yn uwch, o'u cymharu â'r rhai nad oedd wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gall darparu cymorth iechyd meddwl hygyrch wella cyfraddau cadw dysgwyr yn sylweddol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau iechyd meddwl mewn lleoliadau addysg uwch.

Dangoswyd bod ymgyrchoedd addysgol sy'n codi ymwybyddiaeth o broblemau iechyd meddwl, ac adnoddau yn ymwneud ag iechyd meddwl, yn lleihau stigma, yn cynyddu ymddygiadau ceisio cymorth, a gallant gynyddu nifer y staff sy'n parhau yn eu

swyddi. Tynnodd astudiaeth gan Harris ac eraill (2022) sylw at y ffaith bod ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus system Prifysgol Talaith Efrog Newydd (SUNY) wedi arwain at fwy o wybodaeth am wasanaethau iechyd meddwl, ac wedi annog dysgwyr i geisio cymorth (Harris, Maher, a Wentworth, 2022). Canfu adolygiad systematig a gynhaliwyd gan Song ac eraill (2023) fod ymyriadau i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd meddwl yn dangos effeithiau bach, tymor byr mewn perthynas â phobl ifanc. (Song, Hugh-Jones, West, Pickavance, a Ghazala, 2023). Dangosodd ymyriadau yn seiliedig ar addysg effeithiau cymharol fwy arwyddocaol na mathau eraill o ymyriadau, ac y mae astudiaeth gan Waqas ac eraill hefyd yn ategu hyn (Waqas, ac eraill, 2020). Yn eu papur, tynnwyd sylw at y ffaith bod yr ymyriadau mwyaf llwyddiannus yn cynnwys addysg trwy ddarlithoedd a senarios achos, ymyriadau yn seiliedig ar gyswllt, a chwarae rôl fel strategaethau i fynd i'r afael â stigma tuag at salwch meddwl. Ymddengys mai'r strategaethau hyn oedd y mwyaf llwyddiannus o ran gwella stigma, agwedd, ceisio cymorth, gwybodaeth am iechyd meddwl, gan gynnwys adnabod iselder, a phellter cymdeithasol.

# Parodrwydd academaidd

**Maes polisi:** Parodrwydd academaidd

**Lleoliadau:** Cymru, Lloegr, yr Almaen, y Ffindir

**Y sector y canolbwyntir arni:** Addysg bellach ac addysg uwch

**Cryfder y dystiolaeth:** Tystiolaeth dda ar gyfer ymyriadau parodrwydd academaidd. Mae ymyriadau parodrwydd academaidd wedi cynnwys diwygio'r cwricwlwm a chyflinio sgiliau gan ddefnyddio rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol a chyrsiau sylfaen i roi sgiliau a gwybodaeth ymarferol i ddysgwyr mewn meysydd gyrfa penodol, a chymorth pellach i feithrin eu hyder, gan eu gwneud yn fwy parod ar gyfer addysg uwch a'r gweithlu.

**Crynodeb o'r canfyddiadau:**

- Diwygio'r cwricwlwm: Mae ymgorffori cymwysterau galwedigaethol a thechnegol yn ysgogi dysgwyr i barhau trwy addysg drwy wneud eu dysgu yn berthnasol i yrfaoedd yn y dyfodol.
- Cyflinio ag anghenion y farchnad lafur: Drwy gyflinio'r cwricwlwm ag anghenion y farchnad lafur a chynnig prentisiaethau fel rhan o addysg a hyfforddiant galwedigaethol, gwnaeth y diwygiadau gynyddu'r cyfraddau o ran cyfranogiad a chwblhau mewn addysg bellach. Cynyddodd y diwygiad lefelau ymgysylltu hefyd wrth i ddysgwyr ganfod bod y dysgu yn fwy cydnaws â'r yrfa y maent yn bwriadu ei dilyn yn y dyfodol, ac adroddodd cyflogwyr am foddhad uwch â pharodrwydd graddedigion VET.

**Dewisiadau ar gyfer datblygu pellach:**

- Mae angen sicrhau bod y cwricwlwm yn gyfoes, gan ymgorffori cymwysterau galwedigaethol a thechnegol sy'n ysgogi dysgwyr i barhau trwy fyd addysg drwy wneud eu dysgu'n berthnasol i yrfaoedd yn y dyfodol.
- Er mwyn sicrhau bod addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn llwyddiannus, mae angen parhaus i gynyddu cyfranogiad ac ymgysylltiad cyflogwyr i sicrhau bod lleoliadau gwaith a phrentisiaethau ar gael.
- Sicrhau lleoliadau gwaith o ansawdd uchel, gan eu bod yn hanfodol wrth roi arbenigedd a sgiliau ymarferol yn y diwydiant i ddysgwyr.

Nod ymyriadau parodrwydd academaidd mewn addysg ôl-orfodol yw sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi ar gyfer gofynion addysg uwch, a'u bod yn gallu pontio'n llwyddiannus o'r ysgol uwchradd i addysg bellach neu hyfforddiant (Kurlaender, Reed, a Hurtt, 2019). Mae parodrwydd academaidd yn sicrhau bod dysgwyr wedi'u cyfarparu i ymdopi â'r heriau academaidd y byddant yn eu hwynebu, a thrwy hynny yn cynyddu eu siawns o lwyddo a pharhau i gymryd rhan mewn addysg orfodol.

Mae ymyriadau parodrwydd academaidd wedi cynnwys diwygio'r cwricwlwm a chyflinio sgiliau gan ddefnyddio rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol, a chyrsiau sylfaen, i roi sgiliau a gwybodaeth ymarferol i ddysgwyr mewn meysydd gyrfa penodol, a chymorth pellach i feithrin eu hyder, gan eu gwneud yn fwy parod ar gyfer addysg uwch a'r gweithlu. Mae sawl rhaglen lwyddiannus wedi bod yn y DU ac yn rhyngwladol â'r nod o gynyddu cyfranogiad mewn addysg bellach (16 oed ac yn hŷn). Mae addysg bellach yng Nghymru wedi canolbwyntio ar wneud y cwricwlwm yn gydnaws ag anghenion y farchnad lafur, yn enwedig mewn meysydd STEM a galwedigaethol. Mae ymchwil yn pwysleisio bod cwricwlwm wedi'i ddiweddaru, sy'n ymgorffori cymwysterau galwedigaethol a thechnegol, yn ysgogi dysgwyr i barhau trwy fyd addysg drwy wneud eu dysgu'n berthnasol i yrfaoedd yn y dyfodol (Hodgson a Spours, 2008). Mae hyn yn arbennig o hanfodol mewn addysg bellach, pan all dysgwyr fod yn fwy agored i ymddieithriad.

### Tystiolaeth y DU

Nod cyflwyno Lefelau T yn Lloegr yn 2020, fel yr amlinellwyd gan yr Adran Addysg, oedd gwella ansawdd addysg dechnegol mewn colegau addysg bellach. Mae'r Lefel T yn gymhwyster ôl-TGAU (lefel 3) dwy flynedd o hyd sy'n cyfuno dysgu damcaniaethol â lleoliad mewn lleoliad gwaith o fwy na 315 awr.

Cyn Lefel T, cyflwynwyd Blwyddyn Sylfaen Lefel T (a elwid gynt yn Rhaglen Pontio Lefel) hefyd. Mae Blwyddyn Sylfaen Lefel T wedi'i chynllunio ar gyfer dysgwyr y mae arnynt angen paratoad ychwanegol cyn cychwyn ar Lefel T (Yr Adran Addysg, 2021). Nid yw'n cymryd lle TGAU ond, yn hytrach, mae'n bont i'r rhai sydd wedi cwblhau eu TGAU ac angen rhagor o gymorth neu fagu hyder. Mae sylfaen Lefel T wedi'i chynllunio ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu penodol ac a allai fod â chynllun addysg ac iechyd a gofal a allai fod angen cymorth pwrpasol i baratoi ar gyfer Lefel T. Mae hefyd wedi'i anelu at ddysgwyr sy'n chwilio am lwybrau galwedigaethol.

Yn 2023, cynhaliodd y Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) adroddiad terfynol ar Lefelau T a Blwyddyn Sylfaen Lefel T (Ofsted, 2023). Dangosodd y prif ganfyddiadau fod darparwyr

Lefelau T a Blwyddyn Sylfaen Lefel T yn fwy llwyddiannus pe byddent yn ymgysylltu'n sylweddol â chyflogwyr ac yn sicrhau bod y profiad gwaith wedi'i ymgorffori'n llwyddiannus yng nghynllun y cwricwlwm. Hefyd, tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith bod lleoliadau gwaith o ansawdd uchel yn hanfodol wrth roi arbenigedd a sgiliau ymarferol o'r diwydiant i ddysgwyr. Roedd cysylltiad cryf hefyd rhwng gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd o ansawdd uchel, a chadw dysgwyr ar y cyrsiau. Er enghraifft, roedd y dysgwyr hynny a fu'n ymgymryd â sesiynau blasu a digwyddiadau ynglŷn â'r Lefelau T, yn fwy tebygol o barhau ar y cwrs. Yn ogystal, mae'r dilyniant o Flwyddyn Sylfaen Lefel T i gwblhau Lefel T, yn ôl y Cynllun Gweithredu Lefel T diweddaraf (Yr Adran Addysg, 2024) wedi gweld cynnydd cyson o ran cyfraddau cwblhau. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2022–2023, roedd y gyfradd gwblhau tua 75%. O'r rhai a gwblhaodd Flwyddyn Sylfaen Lefel T, aeth tua 65% ymlaen i raglen Lefel T. Mae hyn yn dangos bod cyfran sylweddol o ddysgwyr yn llwyddo i bontio i'r cyrsiau Lefel T uwch (lefel 2). Mae'r ystadegau hyn yn tynnu sylw at effeithiolrwydd Blwyddyn Sylfaen Lefel T wrth baratoi dysgwyr ar gyfer gofynion Lefelau T.

Ar ben hynny, ar gyfer y garfan gyntaf honno o fyfyrwyr a gwblhaodd Lefelau T yn 2022, nododd tua thraean mai addysg uwch oedd y cam nesaf a ffafriwyd ganddynt(Shea, 2023). Yn ogystal, gwelir Lefelau T fel llwybr i fyfyrwyr o grwpiau sy'n ehangu cyfranogiad, fel y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod Lefelau T yn gymharol newydd o hyd, ac mae angen ymchwil barhaus i ddeall yn llawn eu heffaith hirdymor ar gyfranogiad mewn addysg uwch.

Tynnodd adroddiad a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Polisi Addysg yn 2024 (Maris, Khandekar, a Robinson, 2024) sylw at yr heriau sylweddol o ran cofrestru a chadw myfyrwyr ar gyfer Lefelau T, gan nodi bod bron i un o bob tri dysgwr yn rhoi'r gorau iddi o fewn blwyddyn gyntaf eu cyrsiau Lefel T, sy'n arbennig o uchel mewn cyrsiau iechyd a gwyddoniaeth. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod angen sawl newid polisi i wella canlyniadau Lefel T. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth fwy buddiol i ddysgwyr yn ystod eu cyfnod pontio i Lefelau T, mwy o hyfforddiant i athrawon, a dulliau mwy cadarn ar gyfer cael lleoliadau yn y diwydiant. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i godi ymwybyddiaeth o Lefelau T gyda dysgwyr a chyflogwyr, gan sicrhau hefyd y gellir delio â chynnwys y cyrsiau a'r asesiad. Hefyd, gan fod y Lefelau T wedi'u cynllunio mewn perthynas â nifer gyfyngedig o bynciau, e.e. gwaith adeiladu, iechyd, gwasanaethau busnes ac ati, mae'n darparu llai o hyblygrwydd na Safon Uwch, yn enwedig os yw dysgwr yn dymuno astudio rhywbeth arall. Hefyd, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith nad yw pob darparwr addysg uwch yn derbyn Lefelau T fel cymwysterau mynediad dilys.

Defnyddir colegau technegol prifysgol hefyd i gynyddu cyfranogiad mewn addysg bellach ymhlith pobl ifanc 16–19 oed. Ysgolion uwchradd yn Lloegr ar gyfer pobl 14–19 oed yw colegau technegol prifysgol, sy'n canolbwyntio ar feysydd STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) ac yn gweithredu mewn partneriaeth â chyflogwyr a phrifysgolion. Nod colegau technegol prifysgol yw darparu cwricwlwm pwrpasol i ddiwallu anghenion y diwydiant lleol, gan roi sgiliau a gwybodaeth berthnasol i'r diwydiannau lleol i ddysgwyr. Mae Ymddiriedolaeth Addysgol Baker Dearing (Ymddiriedolaeth Addysgol Baker Dearing, 2019) yn adrodd bod gan ddysgwyr sy'n graddio o golegau technegol prifysgol lefelau sgiliau sy'n cyflinio yn well ag anghenion y diwydiant, sydd wedi cyfrannu at fwy o gyfranogiad ôl-16 mewn addysg bellach a lleoliadau gwaith. Adroddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2019) hefyd fod y colegau hyn yn darparu llwybr dilyniant clir i addysg a chyflogaeth (Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, 2019). Mae adroddiad gan Ymddiriedolaeth Sutton (2021) yn tynnu sylw at y ffaith bod addysg bellach, gan gynnwys colegau technegol prifysgol, yn chwarae rhan sylweddol wrth wella symudedd cymdeithasol (Lisauskaite, McIntosh, Speckesser, ac Espinoza, 2021). Mae'r adroddiad yn dangos bod dysgwyr o gefndiroedd dan anfantais sy'n mynychu colegau technegol prifysgol yn fwy tebygol o barhau â'u haddysg a chyflawni canlyniadau hirdymor gwell.

Fodd bynnag, er y gallai fod gan ddysgwyr sgiliau gwell sy'n gydnaws ag anghenion y diwydiant, amlygodd gwerthusiad a gynhaliwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (2019) fod colegau technegol prifysgol yn wynebu anawsterau wrth recriwtio a chadw dysgwyr a staff, a sicrhau ymgysylltiad cyson gan gyflogwyr (McCrone, White, Kettlewell, Sims, a Rush, 2019). Dangosodd adroddiad gan y Sefydliad Polisi Addysg (2018) fod dysgwyr colegau technegol prifysgol yn gyffredinol yn gwneud llai o gynnydd academaidd, o'u cymharu â'u cymheiriaid mewn ysgolion traddodiadol, a bod cyfraddau rhoi'r gorau i addysg yn uchel ymhlith dysgwyr 16–17 oed (Dominguez-Reig a Robinson, 2018). Er y gallai hyn gael effaith andwyol ar gyfraddau cyfranogiad mewn addysg uwch, mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod dysgwyr colegau technegol prifysgol yn fwy tebygol o ddilyn prentisiaethau a gyrfaoedd technegol, gan fod yn gydnaws â nodau'r coleg.

Lansiodd yr Alban strategaeth gyflogaeth ieuenctid genedlaethol: Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Ifanc rhwng 2014 a 2021 (Addysg yr Alban Foghlam Alba, 2023). Nod y rhaglen oedd paratoi pobl ifanc ar gyfer gwaith drwy wella addysg alwedigaethol a lleihau diweithdra ymhlith pobl ifanc 40% erbyn 2021. Nod y rhaglen oedd pontio'r bwlch sgiliau rhwng addysg a chyflogaeth drwy gynnwys busnesau lleol wrth lunio cyrsiau yn y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr 3–18 oed. Roedd y rhaglen yn ymgorffori cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith.

Ehangodd y rhaglen gyfleoedd prentisiaeth yn sylweddol, gan gynnwys prentisiaethau sylfaen, modern, a graddedig. Datblygodd rhaglen Datblygu'r Gweithlu Ifanc bartneriaethau rhwng ysgolion, colegau, a chyflogwyr i roi profiadau gwaith yn y byd go iawn i ddysgwyr. Yn ôl Llywodraeth yr Alban, llwyddodd y rhaglen i gyrraedd ei tharged o leihau diweithdra ymhlith pobl ifanc 40% yn 2017, a oedd bedair blynedd o flaen ei hamserlen. Gwnaeth yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Lywodraeth yr Alban dynnu sylw at heriau, fel y canfuwyd mewn astudiaethau eraill o ymyriadau addysgol sy'n cydweithio â diwydiannau. Roedd angen ymdrech barhaus i gynyddu cyfranogiad ac ymgysylltiad cyflogwyr er mwyn sicrhau bod lleoliadau gwaith a phrentisiaethau ar gael. Hefyd, gan fod rhaglen Datblygu'r Gweithlu Ifanc yn anelu at ddarparu lleoliadau gwaith a phrentisiaethau ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran addysg a'r gweithle, bu'n her i sicrhau bod anghenion y dysgwyr hynny yn cael eu diwallu.

### Tystiolaeth ryngwladol

Yn rhyngwladol, mae model addysg alwedigaethol yr Almaen (Graf, 2013), sy'n integreiddio astudiaeth academaidd â phrofiad gwaith ymarferol, yn aml yn cael ei ddyfynnu fel model o arfer gorau (Hummelsheim a Baur, 2014). Mae system addysg ddeuol yr Almaen, a elwir hefyd yn system hyfforddiant galwedigaethol ddeuol, yn cael ei chydnabod am ei heffeithiolrwydd wrth gyfuno addysg ddamcaniaethol â hyfforddiant ymarferol. Mae'r system yn integreiddio addysg yn yr ystafell ddosbarth mewn ysgolion galwedigaethol â hyfforddiant ymarferol mewn cwmnïau. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ddysgwyr yn yr Almaen barhau mewn rhyw fath o addysg nes eu bod yn 18 oed, sy'n wahanol i Gymru gan fod addysg ôl-orfodol yn dechrau pan fo unigolyn ifanc yn 16 oed. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn yr Almaen yn treulio rhan o'r wythnos yn yr ysgol, a'r gweddill mewn gweithle. Mae'r system yn cael ei chlodfori am gyfrannu at gyfradd ddiweithdra isel ymhlith pobl ifanc yr Almaen, o'i chymharu â gwledydd Ewropeaidd eraill. Mae astudiaeth gan Euler (2023) yn amlinellu sut y mae cydweithrediad agos system yr Almaen rhwng darparwyr addysg a diwydiant yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu sgiliau sy'n berthnasol yn uniongyrchol i'r gweithlu (Euler, 2023). Mae'r adroddiad yn nodi cydrannau hanfodol y system ddeuol er mwyn iddi fod yn llwyddiant mewn gwledydd eraill. Maent yn cynnwys cyllid priodol ar gyfer y system, dylunio cwricwlwm, a sicrhau ansawdd (ymgynghori ar faterion hyfforddi, a thrin arholiadau terfynol). Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod systemau deuol llwyddiannus yn gofyn am bartneriaethau cryf rhwng y wladwriaeth, busnesau, a sefydliadau addysgol, ac mae astudiaethau a drafodwyd yn y papur hwn hefyd wedi dangos eu bod yn bwysig. Mae

partneriaethau cryf yn sicrhau bod rhaglenni hyfforddi yn diwallu anghenion y diwydiant, ac yn cael eu cynnal ar safon uchel, gan fod hefyd yn berthnasol i'r farchnad lafur sy'n newid.

Yn 2018, cyflwynodd y Ffindir ddiwygiadau i addysg a hyfforddiant galwedigaethol fel bod y system yn canolbwyntio yn fwy ar y dysgwr, yn fwy hyblyg, ac yn fwy seiliedig ar gymhwysedd, gan ganiatáu ar gyfer llwybrau dysgu mwy unigol (Corff Cedefop yn yr UE, 2019). Drwy wneud y cwricwlwm yn gydnaws ag anghenion y farchnad lafur, a chynnig prentisiaethau fel rhan o addysg a hyfforddiant galwedigaethol, gwnaeth y diwygiadau gynyddu cyfraddau cyfranogiad a chwblhau mewn addysg bellach yn y Ffindir. Cynyddodd y diwygiad lefelau ymgysylltiad hefyd wrth i ddysgwyr ganfod bod y dysgu yn fwy cydnaws â'r yrfa y maent yn bwriadu ei dilyn yn y dyfodol, ac adroddodd y cyflogwyr am foddhad uwch â pharodrwydd graddedigion VET (Romoleroux Lovo, 2020). Mae rhaglen addysg a hyfforddiant galwedigaethol mewn ysgolion yn Awstralia (VETiS) hefyd yn integreiddio addysg alwedigaethol i gwricwlwm yr ysgol uwchradd, gan ganiatáu i ddysgwyr ennill cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol wrth gwblhau addysg uwchradd (Llywodraeth Queensland, 2025). Yn ôl y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysg Alwedigaethol (NCVER) (2017), mae'r dull hwn wedi cynyddu cyfraddau ymgysylltu a chadw dysgwyr mewn addysg bellach drwy wneud dysgu yn yr ysgol yn fwy ymarferol a pherthnasol i gyfleoedd swyddi (Misko, Korbel, a Blomberg, 2017). Yn Singapore, mae Rhaglen Ennill a Dysgu SkillsFuture, sydd wedi'i hanelu at bobl 17–24 oed, yn rhaglen astudio-gwaith a gynlluniwyd i helpu graddedigion o golegau polytechnig a'r Sefydliad Addysg Dechnegol (ITE) i bontio yn hwylus i'r gweithlu (SkillsFuture, 2015). Mae'r rhaglen yn cynnwys dysgu seiliedig ar waith, ynghyd â chyrsiau rhan-amser, gan ganiatáu i gyfranogwyr ennill profiad gwaith ymarferol wrth barhau â'u haddysg. Penodir mentor i bob cyfranogwr i'w tywys drwy eu hyfforddiant a'u datblygiad gyrfa, ac y mae cymhelliant ariannol. Mae'r graddedigion sy'n cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus yn cael cymhelliad, sef $5,000, ac y mae cyflogwyr hefyd yn cael grantiau o hyd at $15,000 fesul cyfranogwr i gynnal hyfforddiant cyfranogwyr (SkillsFuture, 2015). Dangosodd y gwerthusiad o'r EALP yn 2019 fod graddedigion y rhaglen yn mwynhau cyflog uwch parhaus o ryw 10%, o'u cymharu â'u cymheiriaid nad oedd wedi cwblhau'r rhaglen, a bod eu cyflog yn gymharol â chyflog graddedigion â graddau o sefydliadau addysg preifat, er bod yr EALP yn cymryd llai o amser i'w chwblhau (Adran Ystadegau Singapore, 2019). Pwysleisiodd y gwerthusiad fod cynnal ansawdd cyson ar draws gwahanol sectorau a darparwyr hyfforddiant yn her fawr, ac yn parhau i fod yn her.

Mae Euler (2023) yn ei adroddiad 'Roadmap to High-Quality Dual Vocational Education and Training' yn tynnu sylw at y ffaith y dylai penderfyniadau a dewisiadau dylunio a ddefnyddir

ledled y byd fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a gwerthusiad parhaus er mwyn sicrhau ansawdd, a sicrhau bod y system yn cael ei nodi'n effeithiol, a bod modd gwneud addasiadau llwyddiannus yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn (Euler, 2023). Hefyd, mae'n tynnu sylw at y ffaith y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gan bob dysgwr, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol, fynediad at addysg alwedigaethol ragorol.

## Dysgu digidol, cynhwysiant, ac arloesiadau addysgegol

**Maes polisi:** Dysgu digidol, cynhwysiant, ac arloesiadau addysgegol. Mae integreiddio technoleg i helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer addysg uwch er mwyn cynyddu cofrestru, a chyflwyno arferion addysgeg arloesol i brifysgolion (yn enwedig ar ôl pandemig COVID-19), wedi dod yn ffocws mawr yn y DU ac yn rhyngwladol.

**Lleoliadau:** Y DU, Israel, Singapore, Sweden, Unol Daleithiau America

**Y sector y canolbwyntir arni:** Addysg uwch ac addysg bellach

**Cryfder y dystiolaeth:** Tystiolaeth gymysg. Mae tystiolaeth bod dysgu digidol yn gwneud addysg yn fwy hygyrch a hyblyg, ond mae angen mwy o ymchwil i benderfynu ar ei effaith ar lwyddiant academaidd, a chynyddu cyfranogiad mewn lleoliadau addysg uwch.

**Crynodeb o'r canfyddiadau:**

- Hygyrchedd a hyblygrwydd: Mae adnoddau ar gael i ddysgwyr ôl-16 yr amharwyd arnynt gan y pandemig, yn ogystal ag i ddysgwyr y mae arnynt angen cymorth i bontio i fywyd yn y brifysgol. Mae dysgu digidol wedi gwneud addysg yn fwy hygyrch a hyblyg, ond mae heriau mewn perthynas ag ymaddasu o ran technoleg.
- Potensial deallusrwydd artiffisial: Gellir defnyddio deallusrwydd artiffisial i gysylltu â dysgwyr ynglŷn ag aseiniadau, gwybodaeth am gyrsiau, ac i gynnig anogaeth, a allai wella llwyddiant dysgwyr.
- Cydnabyddiaeth dysgwyr: Gallai dulliau sy'n cynnwys darparu gwobrau am ragoriaeth gynyddu cyfraddau cadw a chwblhau.
- Technolegau dysgu addasol: Gallai teilwra cynnwys i gynnydd dysgwyr unigol helpu i gynyddu ymgysylltiad dysgwyr a gwella canlyniadau dysgu.
- Anghenion dysgwyr rhan-amser: Mae platfformau ar-lein yn darparu opsiynau dysgu hyblyg sy'n ddelfrydol ar gyfer dysgwyr rhan-amser, yn enwedig oedolion sy'n gweithio, ond mae arnyn nhw angen buddsoddiad digonol mewn hyfforddiant staff a seilwaith i sicrhau ymgysylltiad dysgwyr.
- Uwchsgilio addysgwyr: Mae buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol i addysgwyr er mwyn integreiddio technolegau digidol yn effeithiol i'w harferion addysgu yn hanfodol. Gallai cynnig hyfforddiant parhaus i athrawon gyda'r offer a'r strategaethau digidol diweddaraf wella eu gallu i gynorthwyo dysgwyr amrywiol.

**Dewisiadau ar gyfer datblygu pellach:**

Monitro a gwerthuso offer digidol: Gall ymgysylltu mewn amgylchedd digidol ychwanegu cymhlethdodau, a gall datblygu cynnwys digidol sy'n sensitif i gefndiroedd amrywiol dysgwyr fod yn heriol. Fodd bynnag, gallai monitro parhaus ac adborth cyson ar gynnwys ac offer digidol helpu i sicrhau bod yr hyn a gynigir yn addas at y diben

---

Mae integreiddio technoleg i helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer addysg uwch, er mwyn cynyddu cofrestru ac arferion addysgeg arloesol a gyflwynwyd i brifysgolion (yn enwedig ar ôl pandemig COVID-19), a chynyddu cyfraddau ymgysylltu a chadw myfyrwyr, wedi bod yn ffocws mawr i ddiwygio addysgeg yn y DU ac yn rhyngwladol.

## Tystiolaeth y DU

Mae astudiaeth gan Watermeyer ac eraill (2021) yn archwilio'r newid cyflym i ddysgu ar-lein ym mhrifysgolion y DU a'i effaith ar ddysgwyr a staff. Mae eu canfyddiadau'n awgrymu, er bod platfformau ar-lein yn darparu hyblygrwydd, bod arnynt angen buddsoddiad digonol mewn hyfforddiant staff a seilwaith i warantu ymgysylltiad dysgwyr (Watermeyer, Crick, a Knight, 2021).

Mae'r Brifysgol Agored yn y DU wedi bod yn ymchwilio i ddulliau addysgeg arloesol ac yn eu gweithredu gan fod dulliau dysgu ysgogol yn dangos addewid o ran gwella ymgysylltiad a chadw dysgwyr (Kukulska-Hume, ac eraill, 2024). I gyflwyno eu hadroddiad 'Innovating Pedagogy', bu'r Brifysgol Agored yn gweithio gydag ymchwilwyr ac ymarferwyr o Brifysgol Vanderbilt yn yr Unol Daleithiau i ddod o hyd i arloesiadau addysgegol. Roedd y dulliau hyn yn cynnwys dadansoddeg ffurfiannol (defnyddio data i roi adborth parhaus i ddysgwyr ac addysgwyr i nodi patrymau dysgu a meysydd lle gallai fod angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr); addysgu-yn-ôl (sy'n cynnwys dysgwyr yn addysgu'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu i eraill, gyda'r nod o ddysgu yn ddyfnach a chofio'r hyn y maent wedi'i ddysgu); dysgu seiliedig ar le (cysylltu dysgu â'r amgylchedd a'r gymuned leol i greu profiadau a phrosiectau sy'n berthnasol i fywydau dysgwyr); a dysgu gyda robotiaid a dronau (mae defnyddio robotiaid a dronau yn darparu cyfleoedd dysgu ymarferol mewn meysydd STEM). Dangoswyd bod y dulliau hyn yn gwella ymgysylltiad dysgwyr a deilliannau dysgu, ac mae'r 'Adroddiad Arloesi Addysgeg' yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio ag ymchwilwyr ac ymarferwyr eraill (gan gynnwys o wledydd eraill) er mwyn darganfod a datblygu dulliau arloesol i'w hymgorffori yn system addysg y DU.

Yng Nghymru, mae'r Rhaglen Adnewyddu a Diwygio (Llywodraeth Cymru, 2023) yn cynnwys ymyriadau fel yr Hwb Barod ar gyfer Prifysgol (Y Brifysgol Agored, 2025), sy'n darparu adnoddau dwyieithog ar-lein i ddysgwyr ôl-16 yr amharwyd arnynt gan y pandemig, ac y mae arnynt angen cymorth i bontio i fywyd yn y brifysgol. Mae'r adnoddau wedi'u cynnal ar blatfform 'OpenLearn' y Brifysgol Agored ac yn cael eu creu a'u casglu ar ran pob un o'r naw prifysgol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys fideos, podlediadau, erthyglau, rhaglenni rhyngweithiol byr, a chyrsiau ar-lein. Mae'r pynciau'n cynnwys sgiliau astudio, cymorth iechyd a llesiant, a chyflwyniadau i bynciau penodol a meysydd astudio academaidd. Mae'r ymyriad hwn yn tynnu sylw at sut y mae platfformau digidol yn cael eu defnyddio i ymgysylltu â darpar ddysgwyr, ac felly cynyddu cofrestru mewn addysg uwch.

## Tystiolaeth ryngwladol

Mae modelau dysgu cyfunol sy'n cyfuno addysgu wyneb yn wyneb â chyfarwyddyd digidol wedi profi'n arbennig o effeithiol wrth gynnal boddhad dysgwyr a deilliannau addysgol. Mae ymchwil ar ddulliau addysgu hybrid yn Sweden yn awgrymu bod cyfuno dysgu wyneb yn wyneb a digidol yn gwella ymgysylltiad dysgwyr ac yn gwella deilliannau dysgu (Ottergren ac Ampadu, 2023). Yn ogystal, mae Prifysgol Talaith Arizona yn yr Unol Daleithiau wedi gweithredu model dysgu cyfunol sy'n cyfuno addysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Hefyd, mae gwaith gan Laurillard ac eraill (2018) yn pwysleisio rôl technolegau dysgu addasol, sy'n teilwra cynnwys i gynnydd dysgwyr unigol, fel arloesedd hanfodol mewn addysg prifysgol (Laurillard, Kennedy, Charlton, Wild, a Dimakopoulos, 2018). Mae'r ymchwil yn awgrymu bod prifysgolion sy'n buddsoddi yn yr offer hyn yn gweld cyfraddau uwch o ymgysylltiad dysgwyr a gwell deilliannau dysgu. Mae ymchwil ar dueddiadau byd-eang mewn llywodraethu addysg uwch yn tynnu sylw at y ffaith bod buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol ar gyfer addysgwyr, er mwyn iddynt integreiddio technolegau digidol yn effeithiol i'w harferion addysgu, yn hanfodol (Digout a Samra, 2023). Drwy gynnig hyfforddiant parhaus i athrawon gyda'r offer a'r strategaethau digidol diweddaraf i ddefnyddio'r offer hyn, gellid gwella eu gallu i gynorthwyo dysgwyr amrywiol. Canolbwyntiodd y rhaglenni datblygu proffesiynol yn Singapore ar ddatblygiad proffesiynol ar gyfer addysgwyr er mwyn integreiddio technolegau digidol i'w harferion addysgu. Mae hyfforddiant a chymorth cyson ar gyfer athrawon wedi eu galluogi i ddefnyddio offer digidol cyfoes i sicrhau bod dysgwyr yn elwa o brofiad yr offer hyn (Ng, 2015). Mae hyn yn eu tro wedi cyfrannu at ymgysylltiad uwch gan ddysgwyr a dysgu gwell.

Yn Israel, lansiodd y Cyngor Addysg Uwch, ynghyd â'r Pwyllgor Cynllunio a Chyllidebu (PBC), y fenter ddysgu ddigidol. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys datblygu a buddsoddi mewn seilwaith technolegol hyblyg i wella hygyrchedd, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19. Un enghraifft nodedig o sut y mae menter dysgu digidol Israel wedi helpu dysgwyr yw trwy blatfform Campus-IL. Mae'r platfform dysgu digidol yn cynnig ystod eang o gyrsiau ar-lein am ddim gan brifysgolion a cholegau uchel eu parch yn Israel, gan gynnwys cyrsiau sy'n eu helpu i baratoi ar gyfer addysg uwch a datblygu sgiliau newydd sy'n gysylltiedig â'r newidiadau yn y farchnad lafur. Yn ystod y pandemig, gwelodd platfform Campus-IL gynnydd enfawr yn y defnydd a wnaed ohono a'i gwrs ar gyfer paratoi ar gyfer arholiadau seicometreg (Kolodny, 2020). Gan fod y cwrs yn rhad ac am ddim, mae'n hygyrch ac yn gynhwysol i bob dysgwr waeth beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol. Mae ymchwil Bitar a Davidovich (2024) yn canolbwyntio ar fenter ddysgu ddigidol Israel ac yn defnyddio dadansoddiad thematig o gyfweliadau manwl gyda 15 o ddarlithwyr i ymchwilio i weithrediad y cynllun (Bitar a Davidovich, 2024). Datgelodd y canfyddiadau fod dysgu digidol wedi gwneud addysg yn fwy hygyrch a hyblyg, ond bod heriau yn ymwneud ag addasu technolegol. Er enghraifft, sicrhau bod gan ddysgwyr y sgiliau technegol y mae eu hangen i ddefnyddio offer dysgu digidol yn effeithiol, sicrhau bod platfformau digidol yn hawdd eu defnyddio, ac yn diwallu anghenion addysgol a sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad dibynadwy i'r rhyngrwyd. Hefyd, gall integreiddio diwylliannol fod yn heriol gyda dysgu digidol. Er enghraifft, efallai y bydd gwrthwynebiad gan addysgwyr a dysgwyr sydd wedi arfer â dulliau addysgu traddodiadol, megis traddodiad 'chavruta' (lle bydd grŵp bach o ddysgwyr Iddewig yn dadansoddi, trafod a dadlau testun a rennir). Gall ymgysylltu mewn amgylchedd digidol ychwanegu cymhlethdodau, a gall datblygu cynnwys digidol sy'n sensitif i gefndiroedd amrywiol dysgwyr fod yn heriol.

Yn yr Unol Daleithiau, ym Mhrifysgol Talaith Georgia, mae technoleg sgwrsfot wedi'i gwella gan ddeallusrwydd artiffisial wedi cael ei defnyddio ers 2016 i wella ymgysylltiad a chadw dysgwyr (Prifysgol Talaith Georgia, 2024). Er enghraifft, mae'r sgwrsfot 'Pounce' wedi cael ei ddefnyddio i gysylltu â dysgwyr ynglŷn ag aseiniadau, gwybodaeth am gyrsiau, ac i gynnig anogaeth hefyd. Yn 2024, cafodd Sefydliad Cenedlaethol Llwyddiant Myfyrwyr (NISS) Talaith Georgia grant o $7.6 miliwn gan Adran Addysg yr Unol Daleithiau i astudio buddion sgwrsfot wedi'i wella gan ddeallusrwydd artiffisial i'w ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Mae hyn â'r nod o helpu dysgwyr mewn cyrsiau Mathemateg a Saesneg israddedig. Gan fynd gam ymhellach, cyhoeddodd ysgol uwchradd breifat yn Llundain yn 2024 ei bod yn bwriadu treialu ystafell ddosbarth deallusrwydd artiffisial 'heb athro' (Carroll, 2024). Mae tystiolaeth o effaith

y treialon deallusrwydd artiffisial hyn yn ddisgwyliedig; fodd bynnag, mae'n dangos y mathau o dechnoleg deallusrwydd artiffisial y mae'r DU a gwledydd fel America yn canolbwyntio arnynt.

Hefyd, mae arloesiadau addysgeg a dulliau dysgu digidol wedi dangos eu bod yn gwella gwerth astudio rhan-amser, gan wneud addysg uwch yn fwy hygyrch ac effeithiol ar gyfer ystod amrywiol o ddysgwyr. Mae Prifysgol Western Governors yn UDA yn cynnig addysg sy'n seiliedig ar gymhwysedd, gan ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen yn eu pwysau eu hunain. Mae addysg seiliedig ar gymhwysedd yn mesur sgiliau a dysgu yn hytrach nag amser a dreulir mewn ystafell ddosbarth. Mae dysgwyr yn ennill unedau cymhwysedd (sy'n cyfateb i oriau credyd) pan fyddant yn dangos eu sgiliau trwy gwblhau asesiadau (Prifysgol Western Governors, 2025). Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr wedi'u cyfyngu i symud ymlaen dim ond pan fydd y semester neu'r tymor yn dod i ben, oherwydd gallant symud ymlaen trwy gyrsiau cyn gynted ag y byddant wedi profi eu bod wedi dysgu'r wybodaeth. Mae prifysgol ar-lein WGU yn darparu opsiynau dysgu hyblyg sy'n ddelfrydol ar gyfer dysgwyr rhan-amser, yn enwedig oedolion sy'n gweithio. Yn ôl arolygon cenedlaethol a gwblhawyd gan raddedigion WGU, roedd y canlyniadau'n tynnu sylw at ganlyniadau gwell o ran cyflogaeth, ymgysylltiad cryfach gan weithwyr, a lefelau uwch o lesiant o'u cymharu â graddedigion o sefydliadau eraill. Mae WGU hefyd yn defnyddio dulliau cydnabod dysgwyr i gynyddu cyfraddau cadw a chwblhau (Andersen a Leasure, 2016). Canfu astudiaeth ar effaith cydnabyddiaeth dysgwyr yn WGU fod dysgwyr a gafodd wobrau am ragoriaeth wedi dangos cynnydd sylweddol mewn cyfraddau dyfalbarhau a chadw (Bliven a Jungbauer, 2021). Yn benodol, roedd cynnydd cyffredinol o 10.9% o ran dyfalbarhad ymhlith y sawl a oedd wedi ennill gwobrau. Mae hyn yn awgrymu y gall y model addysg sy'n seiliedig ar gymhwysedd, ynghyd â strategaethau ysgogol, wella llwyddiant dysgwyr. Mae platfformau ar-lein ac adnoddau digidol yn caniatáu i ddysgwyr ddysgu yn eu pwysau eu hunain, gan ddarparu hyblygrwydd sy'n helpu dysgwyr rhan-amser i gydbwyso eu hastudiaethau â chyfrifoldebau eraill. Gall technoleg ddarparu ar gyfer ystod eang o arddulliau ac anghenion dysgu, gan wneud addysg uwch yn fwy cynhwysol. Gall darlithoedd fideo, fforymau trafod, a meddalwedd dysgu addasol gynorthwyo gwahanol fathau o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anableddau. Mae System Prifysgol Maine wedi gweithredu amryw o arferion gorau a mentrau i wella cyfraddau cadw a llwyddiant dysgwyr (Prifysgolion Cyhoeddus Maine, 2017). Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni mentora gan gymheiriaid a staff, gwasanaethau cymorth academaidd, a defnyddio dadansoddeg data i fonitro cynnydd dysgwyr a darparu ymyriadau wedi'u targedu. Yn ogystal, gall modelau

dysgu ar-lein a hybrid leihau cost gyffredinol addysg drwy leihau treuliau sy'n gysylltiedig â chymudo, tai, ac adnoddau ffisegol (Talib, Bettayeb, ac Omer, 2021).

## Crynodeb o'r canfyddiadau

Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd dull amlochrog o gynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru. Gall cyfuno cymorth ariannol, mentora, rhaglenni parodrwydd academaidd, a dysgu digidol greu amgylchedd addysgol mwy cynhwysol a chefnogol. Mae'r adolygiad tystiolaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd dulliau pwrpasol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion amrywiol dysgwyr, yn enwedig y rhai o gefndiroedd dan anfantais, er mwyn gwella cofrestru, cadw, a chyrhaeddiad mewn addysg drydyddol.

Mae'r adolygiad llawn yn cynnwys enghreifftiau o bob un o'r ymyriadau hyn. Mae'r ymyriadau'n cynnwys y canlynol:

1. Rhaglenni allgymorth ac ymwybyddiaeth gynnar:
    - **Amcan:** Nod y rhaglenni hyn yw hysbysu ac ysbrydoli darpar ddysgwyr am fuddion a chyfleoedd addysg drydyddol. Maent yn aml yn cynnwys gweithgareddau megis ymweliadau ag ysgolion, gweithdai, a sesiynau gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth a diddordeb mewn addysg uwch.

    - **Tystiolaeth:** Yn effeithiol wrth gynyddu dyheadau, ond tystiolaeth gyfyngedig o effaith uniongyrchol ar niferoedd cofrestru.

    - **Opsiwn ar gyfer datblygu:** Gweithredu astudiaethau hydredol er mwyn gallu mesur effaith a chynnwys rhieni i wella effeithiolrwydd y rhaglen.

2. Derbyniadau cyd-destunol / derbyniadau cyfannol:

    - **Amcan:** Mae'r dull hwn yn cynnwys gwerthuso cais myfyriwr yng nghyd-destun ei gefndir a'i amgylchiadau personol. Ei nod yw darparu asesiad tecach drwy ystyried ffactorau megis statws economaidd-gymdeithasol, perfformiad ysgol, a heriau personol.

    - **Tystiolaeth:** Yn effeithiol wrth gynyddu cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

- **Opsiwn ar gyfer datblygu:** I'r prifysgolion hynny sydd wedi defnyddio derbyniadau cyd-destunol, mae'n cael effaith gadarnhaol ar gynyddu cofrestru grwpiau dan anfantais mewn addysg uwch. Fodd bynnag, ar ôl cofrestru, mae angen cymorth cyfannol a pharhaus i sicrhau y gall dysgwyr o gefndiroedd amrywiol ffynnu ar ôl iddynt fod mewn addysg uwch. Mae hyn yn cynnwys cynghori academaidd, mentora, a chymorth ariannol i gynorthwyo cadw a llwyddiant y dysgwyr hynny a dderbynnir trwy dderbyniadau cyd-destunol. Mae rhai prifysgolion yng Nghymru wedi defnyddio derbyniadau cyd-destunol, ond mae angen adolygu data i weld a ydyw defnyddio derbyniadau cyd-destunol yng Nghymru wedi cynyddu cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

3. Cymorth ariannol:
    - **Amcan:** Mae cymorth ariannol yn cynnwys grantiau, ysgoloriaethau a benthyciadau sydd wedi'u cynllunio i helpu myfyrwyr i dalu costau dysgu, llyfrau a chostau byw. Nod y cymorth hwn yw gwneud addysg yn fwy hygyrch i fyfyrwyr o gefndiroedd incwm isel.

    - **Tystiolaeth:** Cymysg; mae cymorth ariannol yn helpu i gadw myfyrwyr, ond mae ei effaith ar gofrestru yn llai clir.

    - **Opsiwn ar gyfer datblygu:** Cyfuno cymorth ariannol â mesurau cymorth eraill, megis mentora a chwnsela.

4. Mentora a chymorth gan gymheiriaid:
    - **Amcan:** Mae rhaglenni mentora yn paru myfyrwyr â mentoriaid a all gynnig cyngor, cymorth ac anogaeth. Mae cymorth gan gymheiriaid yn cynnwys myfyrwyr yn helpu ei gilydd, yn aml trwy grwpiau astudio neu gynlluniau mentora gan gymheiriaid, i wella eu profiad addysgol.

    - **Tystiolaeth:** Yn effeithiol wrth fagu hyder a dyheadau.

    - **Opsiwn ar gyfer datblygu:** Teilwra rhaglenni mentora i anghenion penodol.

5. Cymorth iechyd meddwl a llesiant:
    - **Amcan:** Mae'r ymyriadau hyn yn cynnwys gwasanaethau cwnsela, gweithdai iechyd meddwl, a rhaglenni llesiant sydd wedi'u cynllunio i gynnal iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr. Y nod yw helpu myfyrwyr i reoli straen, gorbryder a phroblemau iechyd meddwl eraill a allai effeithio ar eu perfformiad academaidd.

    - **Tystiolaeth:** Mae CBT a chwnsela yn effeithiol wrth leihau symptomau iselder a gorbryder ymhlith dysgwyr addysg uwch. Y math mwyaf cyffredin o ymyriad sy'n targedu dysgwyr ag anawsterau iechyd meddwl yw cymorth gan gymheiriaid, ond nid oes digon o dystiolaeth sylweddol o effeithiolrwydd hynny. Gall cymorth iechyd meddwl hygyrch gadw nifer sylweddol fwy o ddysgwyr mewn addysg, gan dynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau iechyd meddwl mewn lleoliadau addysg uwch.

    - **Opsiwn ar gyfer datblygu:** Cynyddu cymorth iechyd meddwl, a monitro a gwerthuso ei effaith yn agos i weld a ydyw mathau o gymorth iechyd meddwl a llesiant yn cael effaith uniongyrchol ar gyrhaeddiad cyfranogwyr.

6. Parodrwydd academaidd:
